YR YMOFYNYDD.

RHIF. 63.] MAWRTH, 1864. [AIL GYFRES.

THEODORE PARKER.*

"Honor then to the manly simplicity of Theodore Parker. Perish who may among Scribes and Pharisees,—'orthodox liars for God,'—*he* at least 'has delivered his soul.'" JAMES MARTINEAU.

MAE ar fin pedair blynedd er pan y daeth dydd gwaith Theodore Parker i ben. Nid ymddengys yn awr yn debyg y gad yr oes hon na llawer oes i ddyfod i'w goffadwriaeth fyned ar goll. Er helaethed ei ddylanwad pan yn fyw, nid oes ddadl nad ar ymchwydd cynnyddol y mae ei ddylanwad hyd yn hyn. Oddiar ei ymadawiad â ni, mae pob blwyddyn newydd yn gwawrio ar nifer liosocach o ddarllenwyr yn llawenhau eu bod wedi eu dwyn yn y dyn hwn i adnabyddiaeth o un o'r dynion hynottaf, mwyaf a goreu ym mhlith rhai rhagorol y ddaear. Mae bellach ryw ugain mlynedd er pan y bu gyntaf yn Lloegr, ond yr oedd ei glod wedi cerdded yma o'i flaen. Ym mhlith y dosparth blaenaf o ddarllenwyr yn Lloegr y mae ei enw a'i weithiau wedi bod am amser hir yn adnabyddus; ac y mae yr argraffiad cyflawn o'i weithiau ag sydd yn awr yn cael ei ddwyn allan yn sicr o'i wneyd yn adnabyddus nid yn unig i'r ychydig dewisol, ond hefyd i gorff y werin. Ond yng Nghymru ni wyddid am hyd yn oed enw Parker hyd yn ddiweddar, ac ar hyn o bryd tebyg yw fod ei hanes a'i ysgrifeniadau yn anhyspys i'r rhan amlaf o lawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Nid rhyw dramwyfa gyflym iawn sydd i weithiau newyddion mewn duwinyddiaeth nac unrhyw ganghen arall o wybodaeth i'n gororau anghysbell ni. Eto cyrhaedd y dòn ni rywbryd, hyd yn oed yn groes i'r Werydd, a thery gyda mwy neu lai o nerth ar ymylon ein traethoedd tawel. Ni fydd i bawb gydweled pa un ai mantais ai anfantais yw hyn; serch y teimlaf fi yn argyhoeddedig nas gall unrhyw elw sylweddol ddeilliaw o anwybodaeth o'r hyn ag y mae llafur a phrofiad dynion dysgedig a rhinweddol yn ei osod at ein gwasanaeth. Mae hyd yn oed Cymru yn dirywio os ydys yn credu mai "mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth." Ac o wybod, gwell gwybod y gwir, a'r holl wir mor agos ag y gellir. Gynt, yn amseroedd coelgrefydd, tybid pan y byddai seren ddysgleirach na'r cyffredin yn ymddangos, mai arwydd o ryw adfyd a chyfyngder tost oedd; fod yr hen drefn ddiwall, yr hen agwedd gyffyrddus ar bethau ar gael ei thori i fynu. Gall fod peth o weddillion y dyb hon yn aros yng ngwledydd Cred y dydd hwn.

Nad beth am hyn, yr wyf wedi barnu y dichon na fydd ychydig o lythyrau ar Theodore Parker yn annerbyniol ar hyn o bryd i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Yr oedd y bwriad ynwyf er ys tro. Buaswn wedi ysgrifenu yn

* *Life and Correspondence of Theodore Parker, Minister of the 28th Congregational Society, Boston. By John Weiss, in 2 Vols.* 1863.

gynt ond fy mod yn dysgwyl yn bryderus am ymddangosiad y ddwy gyfrol ag ydynt yn awr o fy mlaen.

Pwy a pheth oedd Theodore Parker? At ba beth yr amcanodd? Pa beth a wnaeth? Ym mha gylch y llafuriodd? Ar ba destunau yr ysgrifenodd? Paham y teilynga ei goffadwriaeth gael ei chadw yn fyw? Pa beth oedd ei safle fel gweinidog, fel awdwr, fel duwinydd, fel athronydd, fel areithiwr, fel diwygiwr moesol, gwladol a chrefyddol? Dyma'r fath gwestiynau a ofynir yn aml yng Nghymru'r dyddiau hyn. Ac os caniata Golygydd yr Ymofynydd ac os cyd-dduga y darllenwyr â mi, cynygaf mor fyr ag y gallaf i ateb y cyfryw gwestiynau. Gan fod y werin yn awyddus i wybod rhyw gymmaint o hanes y dyn rhyfeddol hwn, onid iawn ymdrechu cyfarfod eu cais? Gwn mai ammherffaith, ac annheilwng iawn o'n gwrthrych y bydd y cofnodion a wnaf fi. Ond gwell genyf wneyd fy ngoreu nag oedi yn hwy. Nid y lleiaf o'r ystyriaethau a'm tueddant i hyn yw yr anghyfiawnder sy wedi ac yn parhau i gael ei wneyd ag enw â syniadau Parker, a hyny gan rai nas gallesid dysgwyl, a chan eraill y gallesid dysgwyl gwell oddiwrthynt. Am fod Parker wedi meddwl drosto ei hun ac nid yn unig sôn am hyny; am ei fod wedi dilyn y drefn *(method)* a gymeradwyir mor fynych ac mor groew gan lawer o'r rhai a'i condemniant, gyda'r gwahaniaeth hyn iddo ef ei dilyn mewn gweithred, tra na wnant hwy, fel y prawf eu hymddygiad, ond ar air yn unig; am iddo trwy ei ffyddlondeb i'r drefn hon gael ei arwain, fel ffrwyth ei ymchwiliadau, i goledd syniadau duwinyddol pell iawn oddiwrth y rhai poblogaidd, a phell hefyd yn fynych oddiwrth syniadau addefedig Undodiaid America a Lloegr, mynant ei ddiraddio a'i ddiarddel yn awr ym mhob modd. Aeth dipyn ym mhellach na hwy, ac oblegyd hyny nid yw yn werth dim. Nid gormod dybygwyf i ni yw dysgwyl y daw amser pan na cheir neb yn ceisio ei oreu i wneyd bwbach i ddychrynu brodyr a chwiorydd gweiniaid o Theodore Parker, na neb arall; a phan na cheir neb heb wybod am ryw ddefnydd uwch i ba un i'w droi nag i wasanaethu am dymhor, nes y codo rhyw feddyliwr nerthol neu ferthyr gwrol arall, fel *target* i'w bwlets hwy o "wynt llafaredig" neu ynte o bapyr ysgrifenedig; a phan y bydd ei wrthwynebwyr yn alluog i ddangos eu bod hwy mewn rhywbeth yn meddu ar y filfed ran o'i ragoriaethau, mewn eangder gwybodaeth neu graffder synwyr, mewn tynerwch teimlad neu wroldeb yspryd, mewn ymdrech ddi-ildio yn erbyn pob gwagder, a ffalsedd a ffug mewn moesau a duwinyddiaeth ac yn y wladwriaeth, neu mewn ymgais i gefnogi a meithrin yn ei gydwladwyr ac ym mhawb arferion o unplygrwydd a gonestrwydd, yn fyr, mewn cariad at ddyn neu mewn cariad at Dduw; pan y bydd ei wrthwynebwyr a'u bryd yn fwy ar hyn nag ar ruthro i ymosod arno ac i'w esgymuno, hyd y gallant hwy, o gymdeithas saint a Christ'nogion, am na chwenychai ac nas medrai barablu eu shibboleth neillduol hwy.

Dymunwn erfyn yn barchus ar olygydd a darllenwyr yr Ymofynydd i beidio a dysgwyl i mi orphen gyda fy mod yn dechreu. Er mai byr mewn cymhariaeth fu einioes Theodore Parker, dim ond haner can mlynedd, eto cofier fod math o fesur ar fywyd nid wrth yr hyd yn gymmaint ag wrth y lled. Mae y ddwy gyfrol o'm blaen yn ddigon i brofi nid yn unig iddo fod yn llafurus a diwyd y tuhwnt i'r cyffredin, ond iddo hefyd lwyddo i gyflawnu rhagor o waith na wnelai y rhan fwyaf o honom ni yn debyg pe y caem fyw oes hir a dihenaint o fil o flynyddau.

Mae ei Fywgraffiad gan Mr. Weiss yn un o'r llyfrau mwyaf dyddorol, addysgiadol, a chyffrous a ddarllenais erioed. Gwneir i un deimlo wrth ddarllen nad bywyd dyn cyffredin sy'n cael ei ddesgrifio yma. Dylwn sylwi hefyd fod swyn penaf y llyfr yn gynwysedig nid yn gymmaint yng nghelfyddyd y Bywgraffydd ag yn nheilyngdod y gwrthrych. Nid ystyriaf y Bywgraffiad yn ddiwall o ran trefn a dosparthiad; ond cyttunaf yn hollol ag eraill sy wedi rhoi eu barn o'm blaen, nad yw cymeriad llenyddol y ddwy gyfrol yn perthyn o lawer o ffordd i'r radd uwchaf. Mae amledd o feiau a diffygion y byddai yn hawdd achwyn arnynt,—nid gyda golwg ar ffeithiau a feddyliaf, ond o ran trefn a chwaeth. Mae yr arddull Americanaidd o ysgrifenu hefyd, oddigerth yn y meistri goreu, y fath ag i fod i ryw raddau yn annerbyniol gan ddarllenwyr yn y wlad hon. Teimlir hyn ond odid wrth ddarllen y cyfrolau dan sylw. Eto ar waethaf pob diffyg, y mae teyrnged fawr o ddiolchgarwch yn ddyledus i Mr. Weiss am a wnaeth, a hyny serch mai gwaith o serch a chariad oedd iddo, fel y byddai yn hawdd casglu pe na feddem ar ei dystiolaeth ef ei hun. Tasg anferthol oedd gwneyd rhyw fath o gyfiawnder â dyn o alluoedd mor nodedig o gyrhaedd-fawr ac o weithgarwch mor aml-ganghenog, a dwyn at eu gilydd i ryw fath o drefn ohebiaethau mor dra lliosog. Mae gan Mr. Weiss yr *idea* gywir am y dull o gyfansoddi bywgraffiad. Gad i Parker lefaru drosto ei hun yn ei lythyron ac yn y cofnod-lyfrau a gadwai. Fel, er nas barnaf y llyfr hwn y goreu y gellid, nac ychwaith y goreu y gwneir ei ysgrifenu gydag amser fel bywgraffiad o Parker, nac o lawer o ffordd i'w gymharu a bywgraffiad Channing gan ei nai, y Parch. W. H. Channing, neu eiddo Arnold gan Dean Stanley, eto bydd pob bywgraffiad dyfodol o dan rwymau helaeth i Mr. Weiss. Mae defnyddiau bywgraffiad godidog yma.

Americaniad, genedigol o dalaeth Massachussets, yr oleuaf a'r helaethaf ei breintiau o hyd yn oed y taleithiau hyny a elwir yn gyffredin gyda'u gilydd yn Lloegr Newydd, oedd Theodore Parker. Ganwyd ef yn Lexington Mass. Awst 24, 1810, sef rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach na Channing. Yr oedd yr ieuaf o un-ar-ddeg o blant, y rhai a dyfasant oll oddigerth un i gyflawn faint ac oedran. Pan aned ef yr oedd ei dad yn haner cant a'i fam yn saith a deugain oed. Bu pump o'r plant farw rhwng chwech a naw a deugain, ac ni fu ond un o honynt fyw ar ol Theodore, sef Mr. Isaac Parker, yr hwn sydd yn fyw yn awr, neu oedd yn ddiweddar iawn, yn dyddynwr parchus yn Lexington, ac yn dal yr hen fferm yr hon sy wedi perthyn i'r teulu am dros gant a haner o flynyddau.

Daeth teulu y Parkeriaid, fel y rhan fwyaf o wladychwyr boreuaf Lloegr Newydd, o'r wlad hon. Mor agos ag y gellir penderfynu yn awr, o blwyf Browsholme yn swydd Gaerefrog y daethant. Croesodd Thomas Parker i America yn 1635. Arwyddair arf-bais (*coat of arms*) y Parkeriaid yn Lloegr oedd *Semper Aude*, (Bob amser bydd feiddgar). Tadcu Theodore oedd y Capt. John Parker, yr hwn a saethodd yr ergyd cyntaf yn Rhyfel Annibyniaeth y Taleithiau, a dorrodd allan yn 1775, sef ym mrwydr Lexington, Ebrill 19eg, o'r un flwyddyn. Cyn hyny yr oedd wedi bod yn rhingyll *(serjeant)* yn y rhyfeloedd Ffrengig, 1749—59, ac yr oedd yn bresenol pan gymerwyd Quebec, 1759. Yr oedd yn bresenol hefyd ym mrwydr enwog Bunker's Hill, 1776, a bu yn llwyddianus i ddwyn yr arf cyntaf oddiar y gelyn yn y chwyldroad Americanaidd. Daeth yr arf hwnw a'r hen fwsced

a gariai pan gymerwyd Quebec i feddiant ei ŵyr Theodore, ac yn ei ewyllys rhoddodd ef hwynt yn anrheg i dalaeth Massachussets.

Mab y Capt. Parker hwn, John, oedd tad Theodore, a Hannah Stearns o Lexington oedd ei fam. Dynion tra nodedig oedd ei berthynasau o'r ddwy ochr: cryf o gorff a meddwl. Yr oedd tad Theodore yn ffermwr ac yn grefftwr *(mechanic)*—dwy alwedigaeth a unir yn fynych yn America; ond yn fwy o'r olaf, pan y gadewai'r fferm gan mwyaf i ofal y plant. Dysgodd y meibion oll i drin offer; i wneyd olwynion, sugnedyddion, a phob celfi fferm; a daeth Theodore yn llaw-ddeheu iawn gyda'r offer saer. Ond yr oedd y tad yn fedrus gyda'i feddwl yn gystal a chyda'i ddwylaw. Nid hawdd yw rhoi meddylddrych cywir am dano i ddarllenwyr Cymreig. Yr oedd yn ddarllenwr mawr y tuhwnt i'r cyffredin, hyd yn oed yn y wlad hono. Ar hir nos gauaf, tra yr oedd ei wraig yn gwau neu yn gwnio—rhaid oedd gwneyd llawer o'r ddau mewn teulu mor lliosog—a'r plant gyda'u difyrwch neu yn eu llyfrau, darllen y byddai ef, ac os cwrddai a rhyw ddarn blasus, darllenai ef allan. Yr oedd wedi astudio *Algebra* a *Geometry*, ac yn hynod hoff o *Mathematics* a *Metaphysics* hefyd; yn gyfarwydd â phob canghen o athroniaeth ddeallol a moesol, ac er nad oedd yn hoff o brydyddiaeth yr oedd wedi darllen yr holl brif-feirdd Seisnig. Yr oedd yn siaradwr llithrig ac yn ddadleuwr grymus wrth raid. Ni chysgai ond ychydig, rhywbeth fel pum awr, (daw i'm cof mai pedair awr y cysgai y diweddar Von Humboldt, tra y taerai Goldsmith druan nad oedd un awr ar ddeg yn ormod), ac yn y gauaf codai yn fore cyn dydd i astudio. O ran duwinyddiaeth, Undodwr oedd, a Rhyddfrydwr mewn gwleidiadaeth. Arferai feddwl drosto ei hun gyda materion crefyddol. Nid oedd a fynai â Paley na Jonathan Edwards. Achwynai ar y blaenaf "nad oedd wedi gadael cydwybod i ni." Ni chredai mewn cosp ddiddiwedd, nac ychwaith yn yr oll o wyrthiau yr Hen Destament a'r Newydd. Eto yr oedd yn ddarllenwr mawr o'r Beibl, a phob prydnawn Sabbath dysgai y Deg Gorchymyn i'w blant, ynghyd â gweddiau a hymnau addas i'r dydd. Ychwaneger at hyn ei fod yn nodedig o gyfiawn, diofn i draethu ei feddwl, yn gymodwr mynych rhwng pleidiau, yn warcheidwad i weddwon ac amddifaid, ac yn gryn dipyn o gyfreithiwr, gan nad oedd y pryd hwnw gyfreithiwr yn yr holl ardal. Nid oedd neb hefyd yn fwy ymdrechgar dros achos addysgiaeth nag ef.

Ond beth am y fam? Dywedir fod gan ein dynion mawrion famau da bron yn ddieithriad. Un o'r cyfryw yn ddiau oedd Hannah Stearns. Mae ei hymddangosiad allanol yn gystal a'i chymeriad godidog wedi ei gadw ar glawr. Menyw addfain o ffurf ydoedd, lygad-las, gyda gwallt goleu, a lliw gwyneb rhyfeddol o ffres a theg. Nid oedd ei gwybodaeth mor helaeth ag eiddo ei gwr. Cymerai y Beibl, y llyfr hymnau, ystoriau difyr a dyddorol, pa un ai ar lafar gwlad ynte mewn ysgrifen a chaniadau poblogaidd, i mewn holl gylch y llenyddiaeth adnabyddus iddi. Yr oedd yn hoff o glywed ei gwr yn darllen, ac yn ddigon craffus a chyflym i fod ar ei gwell o hyn. Yn goron ar bob rhagoriaeth arall yr oedd yn fenyw grefyddol i'r pen. Dywed ei mab am dani: "Nid adnabum ond ychydig yn y rhai yr oedd y greddfau crefyddol mor weithgar a dwfn, ond ychydig a ymddangosent i mi yn mwynhau bywyd Duw yn enaid dyn yn y fath gyflawnder. Iddi hi yr oedd y Duwdod yn Dad holl bresenol, yn llanw pob man a lle â'i bresenoldeb hardd a serchog. Cymerai hyfrydwch dwfn a dystaw mewn gweddi ddirgel.

Yr oedd yn hoff o'r rhanau mwyaf ysprydol o'r Beibl. Nid ymddengys fod gan dduwinyddiaeth dywyll yr oes un afael arni. Cymerodd drafferth fawr gydag addysgiaeth foesol ei phlant—o leiaf yr eiddof fi."

Mae un engraifft o'i chymeriad yn rhy werthfawr i'w adael allan: Pan oedd Theodore yn ei 4edd flwydd, aethai ei dad ag ef allan yn ei law i ryw ran bellenig o'r fferm, gan ei adael i ddychwelyd wrtho ei hun. Ar ei ffordd adref yr oedd yn rhaid iddo fyned heibio i lŷn ag oedd y pryd hwnw yn llawn dwfr. Darfu i flodeuyn, lled brin yn y rhan hono o'r wlad ac i'w gael yn unig yn yr ardal hono—*rhodora*—yr hwn oedd y pryd hwnw yn ei lawn flodau, dynu ei sylw. Aeth tuag atto. Fe welodd grwban *(tortoise)* bach ysmotiog yn bolaheulo odditan y blodeuyn yn y dwfr bâs wrth ei fôn. Yr oedd pastwn bychan yn llaw Theodore. Cododd ef gyda'r bwriad i daro'r ymlusgiad gwirion hardd. Oblegyd er nad oedd erioed wedi lladd un creadur ei hun, yr oedd wedi gweled crytiaid drygionus yn yr ardal, yn unig er mwyn difyrwch, yn lladd adar, gwiwerod a phethau o'r fath, a theimlodd ryw duedd i ddilyn eu hesiampl ddrwg. Yr oedd wedi codi'r pastwn bach. Ond yn ddisymwth attaliodd rhywbeth ei fraich, a llefarodd llais o fewn iddo yn glir ac yn groew wrtho: "Nid yw'n iawn!" (*It is wrong!*) Daliodd ei bastwn i fynu mewn syndod at y teimlad newydd hwn, ac anghofiodd bob peth gan ddwysed y teimlad. Diflanodd y crwban a'r blodeuyn a'r llyn o'i olwg, a brysiodd adref i adrodd yr hanes wrth ei fam, a gofynodd iddi beth oedd y llais a glywsai. Saethodd deigryn i'w llygad; sychodd ef ymaith a'i harffedog, a chan gymeryd y llanc bach yn ei breichiau dywedodd: "Mae rhai yn ei alw yn gydwybod, ond gwell yw gen'i ei alw yn llais Duw yn enaid dyn. Os gwnei di wrando arno ac ufuddhau iddo, fe lefara yn groewach croewach o hyd, a bydd iddo'n wastad dy arwain i'r iawn. Ond os troi glust fyddar ac anufuddhau iddo, o ychydig i ychydig gwywa ymaith, a gad di yn y tywyllwch eithaf heb yr un arweinydd." Aeth hi i'w ffordd yn drafferthus yng nghylch llawer o bethau, ac aeth yntau i'w ffordd i feddwl am yr hyn oedd wedi dygwydd yn ei ddull syml a phlentynaidd. Ond tystiai ar ol iddo dyfu i fyuu na wnaeth un amgylchiad arall yn ei fywyd argraff mor ddwfn a hir-barhaus â hwn arno.

Ni syna neb i fod gwraig mor ddefosiynol ac mor grefyddol â mam Theodore yn ofalus ar fod yr ordinhad o fedydd i gael ei gweini ar ei phlant. Yr oedd yn rhaid i'r mab ieuaf hefyd, yn ei dro, i gael ei fedyddio. Yn y tŷ gartref yr oedd y seremoni i gymeryd lle. Gwahoddasid y cymydogion ynghyd a daethant yn dra lliosog. Yr oedd ef yn awr o gylch dwy flwydd a haner oed. Ond nid oedd pethau i basio mor esmwyth y tro hwn ag ar achlysuron cyffelyb yn flaenorol. Pan dywalltwyd y dwfr ar ei ben, gwnaeth ei oreu i gadw'r gweinidog i bant, a gwaeddodd allan, "O peidiwch!" Edrychai ei gyfeillion ar hyn yn ol llaw fel ei wrthdystiad cyntaf yn erbyn seremoniau. Ni ddarfyddai byth ymholi y dyddiau canlynol, 'Paham y gwneid y fath beth ac i ba ddyben yr oedd y gwlychu?' Er yn blentyn bach mynai gael allan y 'paham' i bob peth. Ond er ei wrthwynebiad i'r bedydd, pell a fu oddiwrth wrthwynebu addysc dirion a serchog ei fam dda. Yr oedd ei haddysc iddo fel gwlith y bore i'r planhigyn egwan. Dylanwadai arno ar bob cam; ac hyd ddiwedd ei oes mynych y cydnabyddai gyda chalon doddedig ei rwymedigaeth helaeth mewn ystyr grefyddol i addysc ac esiampl ei fam. Yn ei bregeth ymadawol yn West Roxbury, lle'r ymsefydlodd gyntaf fel gweinidog, dywed:

"Crefydd oedd yr etifeddiaeth a roddodd mam i mi—yn fy ngenedigaeth —yn ei haddysgiadau. Cafodd llawer eu geni yn well nâ mi gyda golwg ar bethau'r byd; ond ychydig gafodd well mam. Crybwyllaf hyn er dangos i chwi pa fodd y des i feddiannu y syniadau am grefydd ag sy genyf yn awr. Nid yw fy mhen yn fwy naturiol i'm corff—nid yw wedi tyfu yn fwy gyda'm tyfiant nag yw crefydd allan o fy enaid a chyda hi. Gyda mi nid saerniaeth oedd crefydd, rhywbeth yn cael ei adeiladu o goed sychion oddiallan; ond tyfiant oedd—tyfiant o hedyn *(germ)* yn fy enaid."

Pan yn fachgen bach iawn, dywed nad oedd un cymeriad mewn hanesiaeth a pha un yr oedd mor adnabyddus â'r Iesu. Am hyn yr oedd yn nyled ei fam dda. Ond cofiai gydag arswyd a chryndod am yr artaith yr aeth dani pan y ca'dd allan, mewn copi o Gatecism y Gymanfa, yr athrawiaethau o boenau diddiwedd ac o Dduw digofus. Tipyn bach gyda chwech oed oedd pan y cwympodd allan â hwy. Fel hyn yr ysgrifena:

"Prin y gallaf feddwl heb echryd am yr effaith ofnadwy a gafodd yr athrawiaeth o ddamnedigaeth ddiddiwedd arnaf. O'r llawer, llawer o oriau y llefais gydag arswyd pan yn gorwedd yn fy ngwely ac yn gweddio, nes rhwng y gweddio a'r llefain, y rhoddai cwsc orphwysdra i mi! Ond cyn fy mod yn naw oed, aeth yr ofn hyn i bant, ac mi a welais oleuni clirach yn naioni Duw. Ond am flynyddau, dyweder o saith i ddeg oed, adroddwn fy ngweddiau gyda llawer o ddefosiwn, fel y tybiaf, a pharhawn wed'yn i ailadrodd, 'Arglwydd maddeu fy mhechodau,' hyd nes y cysgwn."

Gwelwn oddiwrth hyn fel oddiwrth liaws o engreifftiau cyffelyb y gellid eu nodi, pe lle yn rhoi, fod Theodore Parker yn blentyn yn gystal ag yn ddyn hynod. Nid yn unig yr oedd ei ddeall ar waith yn foreuach na chyffredin, ond gwnaeth ei gydwybod a'i grefyddoldeb ddangos eu hunain yr un mor foreu. Nid yw hanesiaeth yn brin o ddynion cryfion mewn deall ac èang eu gwybodaeth er yn foreu, ond pan ymofynir i'w crefyddoldeb ceir eu bod wedi ei meithrin a'i harfer mewn graddau anghyfartal iawn. I'r cyfryw na ddaliant mai deall i gyd yw crefydd, gellid meddwl yr ymddengys yn y dyn hwn un wedi ei eni yn llawn athrylith grefyddol. Mae ei hanes yn warant fod crefydd ynddo ef wedi tyfu gyda'i dyfiant, cryfhau gyda'i gryfder. Mae yn amlwg neillduol yma fel y mae'r plentyn yn dad y dyn. "Dydd y pethau bychain" yw hi eto. Awn rhagom gam yn ein llythyr nesaf.

WILLIAM THOMAS.

ADNEWYDDIAD.

GWELAIS y blodeuyn yn gwywo ar y gorsen, a'i ddail yn wasgaredig ar y llawr.—Edrychais etto, ac yr oedd wedi blaendarddu o newydd; yr oedd y gorsen yn goronedig â blagur newyddion, a'i bereiddwch yn llanw yr awyr.

Gwelais yr haul yn machludo yn y gorllewin, a chysgodau'r nos yn amgylchu'r terfyngylch maith; nid oedd dim na lliw na llun na thegwch na pheroriaeth; yr oedd tywyllwch a phrudd-der oddi amgylch ymhob man. Torodd yr haul etto allan o'r dwyrain; goreurodd gribau'r mynyddoedd; cododd yr uchedydd o'i nyth isel i gyfarfod âg ef; a chysgodau'r tywyllwch a hedasant ymaith.

Gwelais y brychbryfyn, ar ol dyfod i'w lawn faintioli, yn nychu ac yn gwrthod bwyta; nyddodd iddo'i hun feddrod; ac wedi ymwasgodi mewn amwisg sidan, gorweddai heb draed, heb lun, ac heb allu i gyffro. Edrychais

etto, yr oedd wedi tori rhwymau ei orweddfa ; yr oedd yn llawn bywyd, ac hwyliai ar adenydd lliwiedig trwy yr awyr deneu ; ymlawenychai yn ei fywyd newydd.

Felly y bydd i ti, O, ddyn ! ac felly yr adnewyddir dy fywyd. Harddwch a gyfyd o'r golosg a bywyd o'r lludw.

Ychydig enyd a thi a orweddi yn y pridd, megys y gorwedda'r hedyn ym mynwes y ddaear ; ond ti a gyfodir etto : ac, os da fyddi, ni fyddi marw byth mwy.

Pwy yw efe sydd yn dyfod i hollti dorau carchar y bedd ; i beri i'r meirw ddihuno, ac i gasglu ei brynedigion o bedwar gwynt y nef ?

Y mae yn disgyn ar gwmmwl o dân ; swn yr udgorn sydd yn myned o'i flaen ef ; ac y mae miloedd o angylion ar ei ddeheu-law.

MRS. BARBAULD.

Y LECHLAFAR.

"Concava pulsu
Saxa sonant, vocisque offensa resultat imago."
Virg : Geor. iv. 49, 20.

NI chyfeirir ond unwaith yn yr Ysgrythyrau at y lechlafar *(Echo)* a dim ond unwaith yn yr Apocrypha, sef yn Ezeciel vii. 7, dan yr enw "*adsain* mynyddoedd," ac yn Doethineb Solomon xvii. 19, lle y gelwir hi yn "*caregleſain* yn dadseinio ogofeydd y mynyddoedd." Yn y Beirdd Rhufeinig gwneir cyfeiriadau yn fynych iawn ati. Cyfrifir hi megys rhyw hanner duwies, a dywedir mai merch yw hi i'r Ddaear a'r Awyr. Yr oedd yn un o forwynion Juno, a phan byddai Jupiter yn chwennych ymddiddan tipyn â'r gwyryfon, yr oedd Echo yn cadw ei meistres yn llawn gwaith trwy siarad yn barhaus wrthi. Ond fe ddaeth Juno o hyd i'r twyll, a darfu iddi gospi ECHO trwy ei throi hi yn *echo*, hyny yw, Bod heb ddim llywodraeth ar ei thafod (y mae llawer o fodau cyffelyb yng Nghymru yn awr), bod yr hwn nid yw yn alluog i siarad *cyn* y byddo rhyw nn arall wedi siarad, nac yn alluog i fod yn ddistaw *ar ol* y byddo rhyw un arall wedi siarad. Yn y cyflwr yma cwympodd Echo mewn cariad â Narcissus, ond ni wrandawodd Narcissus ar ei chariad hi, a darfu i Echo wasgu ac ymddihoeni yn raddol fel nad oedd dim yn aros yn y diwedd ond ei llais. "Ei llais yn unig sydd i'w glywed," meddai'r bardd, "dywedir fod ei hesgyrn wedi derbyn ffurf càreg. Oddi ar hyny y mae hi yn ymguddio yn y gelltydd, ac nid yw byth i'w gweled ar y mynyddoedd, etto clywir hi gan bawb ; swn yn unig sydd yn byw ynddi." Ni fu erioed yn alluog, mae'n debyg, i wneud rhagor nag ail-adrodd yr ychydig eiriau olaf a glywai. *A oes rhyw un yma ?* meddai Narcissus—*yma*, meddai Echo yn atteb.* Y mae dernyn bychan o waith Erasmus, yn yr hwn y mae Echo yn cymmeryd rhan tra helaeth a thra chwerthinadwy weithiau hefyd. Y mae gan feirdd Groeg a Rhufain enghreifftiau cyffelyb i'r un canlynol :—

"Faemina dira viri nex est, et terribilis—*lis*."

Y mae gan Milton yn ei *Paradise Lost*, (ii. 787) y geiriau tarawiadol hyn :—

* "Forte puer, comitum seductus ab agmine fido,
Dixerat, *Ecquis adest* ? Et, *Adest*, responderat Echo."
Gwel Ovid. Metaph : iii. 356—401.

"I fled and cried out *Death !*
Hell trembled at the hideous name, and sighed
From all her caves and back resounded *Death !*

Nis gall dim fod yn fwy teimladwy nag *Ymweliad y Bardd* gan Tegid: wele'r pennill cyntaf yn enghraifft:—

"I dref y Bala'r aeth y Bardd, I edrych am ei dâd,
Aeth dros y tŷ a thrwy yr ardd, Gan waeddi, 'O, fy nhad!'
Nid yw fy nhad yn unrhyw fân, Os nad yw yn y bedd;
Attebai'r *gareg* atteb gam, Dywedai, *yn y bedd !*"

Y mae cof ambell i Echo fel ambell i ddyn yn well na'u gilydd, weithiau ni chlywir ond un sill ganthi, e. e. Dyn yn gofyn—"Pwy oedd yn fil*an ?*" Echo'n atteb, *An !* Bryd arall clywir dwy sill—"Pa beth ddywedai'r Gwcw?" Attebai'r Echo, *Gwcw !* Ac weithiau clywir tair sill fel Echo Tegid, yr hon attebai "*yn y bedd.*" Nid oes nemawr o wlad, goeliaf fi, nad yw Echo yn trigfanu ynddi, na nemawr o ddyn nad yw wedi clywed ei llais. Dywedir ei bod hi yn trigo fynychaf mewn hen abad-tai dadfeiliedig, (nis gwn pam hyny), ac mewn ogofeydd ac yn y mynyddoedd. Clywir hi yn adseinio yn rhyfedd ambell dro oddi ar ben *Icebergs* (mynyddau ia) ac nid yn anfynych yn peri cymmaint o gryndod yn yr awyr nes siglo'r *Iceberg* yn gatiau, a pheri swn cymmaint fel y gellir ei glywed am filldiroedd lawer o ffordd.*

Achosir Echo gan ddau dŵr ger llaw Verdun, yr hon sydd yn adsain yr un gair 12 neu 13 o weithiau drosodd. Yn Adernach, yn Bohemia, y mae Echo sydd yn adrodd saith sill dair gwaith drosodd yn berffaith groyw. Yn Lurleyfels, ar y Rhine, y mae Echo sydd yn adseinio ddwy waith ar bymtheg. Dywed traddodiad fod Echo Mausoleum Cecilia yn Rhufain yn gallu adrodd y linell gyntaf o Aeneid Virgil, yr hon sydd yn cynnwys pymtheg sill, wyth gwaith yn groyw. Dywedir fod un ger llaw Milan yn rhoi atteb i swn uchel deng waith ar ugain yn berffaith eglur, ac un mewn adeilad yn Pavia yn atteb gofyniad trwy repeatio y sill olaf ddeng waith ar hugain.†

Yng nghladdfa teulu Abercorn, yn Paisley, yn swydd Renfrew, y mae Echo hynod iawn. Pan byddo'r drws yn cael ei gauad yn arw, y mae'r dadseiniadau yn gyffelyb i swn taranau. Y mae un *note* o fiwsig, yn chwyddo yn raddol, yng nghwmni llu o adseiniau, a thrachefn yn darfod yn raddol ac yn marw gyda'r murmuriadau mwyaf swynol a hyfryd. Y mae effaith miwsig yn hynod darawiadol yma. Yn y capel hwn, yn swn suoganau yr adseiniau mwyaf tyner, y mae Margaret, merch Bruce, a gwraig Wallace, a mam Robert brenin Scotland yn huno.

Os swnir corn hela gerllaw "Nyth yr Eryr," ar lànau llyn Killarney, fe glywir adseiniau cyffelyb i gant o offerynau cerdd yn union yn atteb i'r alwad. Y mae swn un ergyd o gannon yn rhuo megys taranau, ac yn adseinio o graig i graig, ac yn marw, mewn seiniau diderfyn, ar hyd y mynyddoedd pellenig.

Clywais un gyffelyb iawn i'r olaf, fy hunan, rai blynyddau yn ol, ond ei bod ar *scale* lawer llai, gerllaw tŵr y Ddery Ormond yn Sir Aberteifi.

Gelwid y lechlafar gan y Syriaid yn "ferch y llais;" gan Euripides yn "blentyn y mynyddoedd;" gan Lucretius yn "ddelw llafar;" gan Shakespeare "*the babbling gossip of the air;*" gan Ossian yn "fab y graig." Y

* Buche's Beauties, &c., Vol. I. p. 276. † Lardner-Acoustics § 702.

mae rhywbeth yn dra swynol yng nghyfarchiad Ossian. "Di Fab y wlad bellenig, yr hwn wyt yn trigo yn y ddiogel gell! A glywaf fi swn y gwynt, ai ynte lais caniadau? Ond clywais lais peraidd. Ai moli yr ydwyt dywysogion dy wlad; ai ynte ysbrydion y gwynt? Ond, breswylydd unigol y creigiau! Edrych di ar y gwastadedd crugog draw. Ti a weli eu beddrodau gwyrddion, efo'u porfa rhonge chwibanllyd; efo'u ceryg â phenau mwsoglyd. Ti a'u gweli hwy, fab y graig, ond Ossian, y mae ei lygaid ef wedi methu!"—*Brwydr Lora.*

Nid drwg fyddai llinellau Ausonius, pe gellid rhoddi gwisg Gymreig iddynt:—

"Vane, quid affectas faciem mihi ponere, pictor?
Aëris et linguae sum filia:
Et, si vis similem pingere, pinge sonum."—*Ausonius.*

Terfynaf yn bresennol gyda rhoddi pennill allan o Manfred Lord Byron, ond os byw a iach fyddaf, ac os byddwch chwi, Mr. Gol., yn gweled yn addas, ceisiaf rhyw dro etto, i ddangos beth ydyw yr achos, y gwir achos o'r *Echo*, neu pwy mewn gwir ydyw ei thad a'i mam.

"My soul would drink the echoes—Oh! that I were
The viewless spirit of a lovely sound,
A living voice, a breathing harmony,
A bodiless enjoyment—born and dying
With the blest tone, that made me!"—*Byron.*

RESONABILIS ECHO.

GWYNTOEDD A THYMHESTLOEDD.

Myfyrdodau C. C. Sturn.—Mawrth 14*eg.*

RHYFEDD mor chwyrn y mae'r awyr yn cael ei gynhyrfu. Wel, a glywch chwi fel y mae'r gwynt yn chwiban uwchben, ac yn awr yn ymchwyddo yn uwch uwch etto! Edrychwch fel y mae'r cymmylau duon yn ymgasglu ac wedi hyny yn chwildroi yn y blaen gyda chyflymdra ofnadwy! Y mae'r derw yn wasgaredig ar y llawr, yr hwn sydd yn siglo fel y maent yn syrthio: ac wele'r bwthdai accw yn cael eu cludo ymaith gan y gwynt, a'u darnau gwasgaredig yn cael eu gyru yma a thraw! Y mae'r cymmylau yn ymagor ac yn gorlifo'r ddaear, â'r ffrydlif gwlaw sy'n disgyn. Efallai ar y foment yma fod rhyw gwch bychan anlwcus yn hwylio yn y storom wrth drugaredd y gwyntoedd; i fyny y mae'r gwyntoedd uchel yn rhuo, ac oddiamgylch y mae'r cyfan oll yn dywyllwch; y mae'r tònau yn awr yn cwrdd a'r cymmylau, a thrachefn yn rholio yn ôl, ac yn agor gagendor fawr yr hon sydd yn bygwth dinystr uniongyrchol. Y mae'r morwyr mewn braw ac ofn yn awr yn ddiobaith! y maent yn meddwl am eu cartref-leoedd pellenig, a chyda dychryn gwyllt yn edrych ar y don, ar yr hon, fel y mae yn rholio ar ei thaith megys mynydd aruthrol, y maent yn darllen eu tynged olaf. Ond paham y mae'r Creawdwr daionus yn caniatau i'r gwyntoedd felly i ymlwybro dros y moroedd a thros y tir, gan wasgar dinystr ac anghyfanedd-dra lle bynag yr elont? Ofyniad ynfyd! Pwy sydd yn berchen ar fyrbwyllder a balchder i feiddio beio a chyhoeddi barn yn erbyn yr Hollalluog, neu i ammheu ei ymddygiadau Ef? Yn hytrach ystyriwn ei ffyrdd mewn distawrwydd, ac ymddarbwyllwn oddiwrth yr hyn a wyddom am dano, eu bod ar bob amser yn ddaionus.

Er fod y dymmestl a'r corwynt yn aml yn siarad mewn dychryn—nes crynu'r ddaear; er eu bod yn achosi anghyfanedd-dra ac yn peri i longau ar y môr i gael eu rhwygo yn ddellt neu i gael eu claddu yn yr eigion; er fod tai yn cael eu dadymchwelyd a dynion ac anifeiliaid yn cael eu hysgubo ymaith: etto nid oes genym ni ddim hawl i gyhuddo deddfau Rhagluniaeth, y rhai ydynt wedi eu ysgrifenu mewn doethineb ac yn cael eu llefaru mewn trugaredd. Y mae'r ystormydd a'r tymhestloedd yma i atteb dibenion mawr a phwysfawr mewn natur. Ar ddychweliad y gwanwyn, y mae awyr llaith a mwyn yn tyneru'r ddaear, yr hon yn ystod y gauaf oedd wedi ymgaledu. Trwy'r cyfnewidiad hwn yn yr hin, y mae'r awyrgylch yn fynych yn ymlanw â tharth niweidiol, a gallai pläau a heintiau ddistrywio dynion ac anifeiliaid, oni buasai fod y cyffroadau nerthol yma yn yr awyr yn ei wneuthur yn fwy pur ac iachus.

Felly yr ydym yn cael fod yr Hollalluog, pa un a fyddo yn ymweled à ni yn y tymhestloedd neu ynte yn gwenu arnom yn ei dawelwch, yn y naill yn gystal a'r llall, yn Dad ac yn Ewyllysiwr da y greadigaeth; a phob tro y clywom y gwyntoedd yn chwythu uwch ein penau, cydnabyddwn ei ddaioni Ef, a myfyriwn gyda diolchgarwch ar ddoethineb ei lywodraeth. Y mae'r Arglwydd yn cymmeryd y gwyntoedd o bedair congl y nef, ac yn eu dwyn o bellafoedd y ddaear ac yn nodi'r llwybrau y dylent gymmeryd; yn rheoli eu terfynau ac yn peri iddynt ymattal wedi cyflawni ei amcan. Paham ynte yr ofnwn ac y byddwn mewn trallod pan y byddo ei genhadon yn cyflawni ei orchymynion? Er i'r dymmestl udo o'm hamgylch, er i'r ddaear grynu, er i'r creigiau rwygo yn ddarnau a'r tywyllwch guddio gwynebpryd anian, ni'm aflonyddir ac ni'm brawychir; eithr ymddiriedaf yn yr Arglwydd, gosodaf bwys fy ngofalon ar ei fynwes Ef, yr Hwn sydd yn rheoli ac yn llywodraethu y bydysawd, yn rhoddi eu cyfeiriad i'r gwyntoedd, ac yn nodi allan eu llwybrau i sêr y nef.

DEDWYDDWCH YN SYLFAENEDIG AR GYWIRDEB YMDDYGIAD.

Y MAE pawb yn ceisio daioni, a byddent yn ddedwydd, pe gwyddent podd: nid yn ddedwydd am funydau ac yn druenus am oriau; ond yn ddedwydd pe byddai bossibl trwy bob ran o'u bywyd. Naill, ynte, y mae daioni o'r natur dianwadol a pharhaus yma yn bod, neu ynte nid oes. Os nad oes, yna y mae'n rhaid fod pob daioni yn ddarfodedig ac ansicr; ac os felly, yn wrthrych o'r gwerth lleiaf, a braidd yn deilwng o'n sylw a'n ymofyniad. Ond os oes daioni gwell, daioni o'r fath ag ydym ni'n ei geisio; fel pob peth arall y mae'n rhaid ei fod wedi deilliaw oddiwrth ryw achos; ac y mae'n rhaid fod yr achos hwnw naill ai yn allanol, yn dufewnol neu yn gymmysgedig o'r ddau; yn gymmaint ag heblaw y tri hyn, nid oes un arall yn bossibl. Yn awr nis gall fod daioni dianwadol a pharhaus yn deilliaw oddiwrth achos allanol; yn gymmaint a'i bod yn rhaid fod pob peth deilliedig oddiwrth allanolion yn anwadal megys ag y mae y rhai hyny yn anwadal. Wrth yr un rheol, nis gall fod yn deilliaw oddiwrth gymmysgedd o'r ddau, oblegid fe fydd i'r rhan sydd yn allanol, yn gyfartal i ddistrywio ei sylwedd. Beth ynte sydd yn aros ond y tufewnol? yr achos hwnw ag ydym wedi dybied pan y byddom yn gosod y daioni arbenigol mewn meddwl—mewn cywirdeb ymddygiad.

HARRIS.

Y RHYFELGYRCH I HOLLAND.

Mr. Gol.—Os caniattewch le yn eich cyhoeddiad clodwiw i'r pennillion canlynol, bydd amryw yn ddiolchgar i chwi heblaw fy hunan. Cyfansoddwyd y gân ganlynol gan William Dafydd o'r "Aber," (amaethdy yn mhlwyf Ogwr), ar yr achlysur o fynediad Duc Caereframwg yn 1793 i Holland, yr hwn oherwydd ei anghymwysder i'w swydd, a arweiniodd ei fyddin luosog i gaethiwed a dinystr. Yr eiddoch yn ddiffuant,

Llewelyn Alaw.

Tôn,—"*Arglwyddes drwy'r coed.*"

Dewch feirddion, dygwch fawrddysg
  Digymmysg megys gynt,
I'n cwyno i gyd mewn caniad,
  O ddwyfron bawb yn ddifrad,
'Waith myn'd o'n gwlad dan wr diglod
  Yn filwyr hynod hynt.
Twyllo 'rhai'n oll o'u rhodd
  'Gael miloedd i'r mâes,
Dan ddwylaw dyn diddoniau
  I'w difa â'r cleddyf glas.
Uchel yw'r ochain gan frodyr ym Mrydain,
  O mor llwyr, mawr yw'r llu, y lladd fu a'r llefain
Wrth feddwl am y modd y lladdwyd lluoedd llon,
  A'u carno oll mewn dirmyg yn grûg i'r ddaear gron,
Mewn canol gwlad ddieithyr, mae'n brudd i lawer bron.
  Oedd irâd gweled arwain
Dros fôr o Frydain Fawr,
  Ei gwŷr i diroedd dyrus
'Dan ofal gelyn cyfrwys,
  Lle lladdwyd miloedd, dyma'r modd,
Yn lluoedd ar hyd y llawr.
  Mam na thad mwy ni thaw.
Newydd draw ddaeth i dre,
  O Holland, pwy na wylai
Yn lli wrth goffa'r lle!
  Mawr rif y meirwon, a mwy sydd yn gaethion.
Trwm fu'r tro yr ochor draw dan ddwylaw gelynion.
  Ni fyddant mwy mor ffol a rhoddi dynolryw
I'w gosod dan Dywysog (ail Fradog euog yw),
  Na ddel ymlaen i'w ddilyn un fyddin yn ei fyw.
Calonau mewn gelyniaeth—
  Arferiaeth trwy'r holl fyd,
A ddigwydd y mae'n ddiogel
  O achos dynion uchel.
I ddirwyn rhan o ddynolryw
  Trwy amryw droion drud,
Tynnu'r cledd, dyna'r clod,
  Oer drallod o'i drin:
Y chwareu ddaeth yn chwerw,
  Gael marw ar ei fin.
Bryd hyn, o Frytania, at heddwch tuedda;
  Gwell o hyd, yn y byd, yw'r llwyddfyd nâ'r lladdfa.
Os ymddwyn felly wnawn mewn brawdol ddenol ddawn,
  Daw toraeth ar ein tiroedd, pob lleoedd fydd yn llawn,
A bendith ffrwythau'r meusydd ar gynnydd yma gawn.

YCHYDIG FYFYRDODAU AR FORE DYDD SABBATH.

(Allan o'm Dydd-lyfr.)

GWEDDI.

O Dduw! Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr holl Arglwyddi! Ger dy fron Di yr ydym ni dy fobl yn awr yn dymuno ymddangos. Ger dy fron Di yr hwn wyt yn fawr uwchlaw ein amgyffred ni. Yr hwn wyt yn llanw yr holl fodoldeb a'th bresenoldeb, yr hwn ydwyt er hyny yn ymostwng i wrando gweddiau y gwaelaf o'th greaduriaid. Yr ydym ni yn wan, ond yr ydym yn ymorphwys ar dy gadernid Di. Yr ydym ni yn gamsyniol, ond trwy dy Ragluniaeth Di yr ydym yn gobeithio cael ein dwyn yn y diwedd i'r llwybr uniawn. Er syrthiaw o honom yn aml yr ydym yn gobeithio cael dy nerth Di o hyd i'n cyfodi. Y mae genym dy gytarwyddiadau Di, ac y mae ein dymuniad yn ddwys i'w dilyn. Yng nghanol terfysgoedd bywyd, O bydd Di i ni yn nerth ac yn darian. Pan y byddom yn llwfr ac yn llesg, O bydd Di i ni yn fywyd. Pan y byddom mewn gorthrymderau, bydded dy law Di yn ein dàl i fyny. Yng nghanol trallod a gofid y bywyd hwn, yr ydym yn ymorphwys ar nerth dy gariad Di. O Dad Sanctaidd, yr ydym yn dymuno fod dymuniadau sanctaidd y dydd hwn yn esgor ar weithredoedd cyfattebol. Gwyddom fod llawer meddwl pur, llawer dymuniad sanctaidd sydd cyn hyn wedi eu cyfodi ar allor ein calonau, wedi myned i golli yn ffwdan ein goruchwylion beunyddiol. Nerth a gaffom heddyw i ddyfod yn nes at orseddfa dy gariad Di nag erioed. Argrapher pob gobaith duwiol, pob meddwl sanctaidd yn ddyfnach nag erioed ar ein calonau, a nerther ni i gyflawni gyda mwy o egni nag erioed ein holl ddyledswyddau, i gyrchu at y nod am y gamp uchel, gyda dymuniad mwy diysgog, ac i ddyfod i safle fyddo yn nes at dy anwylaf Fab Iesu. Dylanwaded ein holl ddymuniadau ni ar ein holl fywyd er daioni; er ein dwyn yn nes atat ti ac at Awdwr a Pherffeithydd ein ffydd ni, er ein gwneud yn well aelodau cymdeithas, yn well brodyr o'r hîl ddynol, yn well gweithwyr am yr un anfarwoldeb sydd yn ein haros tu draw i oruchwylion y bywyd hwn a'r bedd. Amen.

PSALM XCVIII., ADN. 1, 2, &c. I'R DIWEDD.

Mor hyfryd y mae per ganiedydd Israel yn llefaru. Y mae peroriaeth y nefoedd yn cyfodi oddiar ei galon ef, ac yn diferu dros ei wefusau fel y dafnau o'r diliau mel. Y mae yn canu fel pe na byddai efe yn aelod o un gymdeithas ar wyneb ein daear isod. Fel pe byddai efe yn trigianu ar lànau rhyw ddyfroedd tawel, lle nad yw tymmhestloedd gofid a galar y bywyd hwn byth yn crychi eu gwyneb. Fel pe byddai yn feddiannol ar ryw orseddfa hardd, lle mae cariad a hedd a thawelwch yn teyrnasu heb ddim i'w haflonyddu. Etto gwyddom fod ei sefyllfa ef fel sefyllfa dynion yn gyffredin. Gwyddom ei fod yn byw fel dynion ereill mewn byd lle mae trallod a gofid a galar yn bodoli. Pa beth ynte ydyw sail ei lawenydd? A ydyw efe wedi cael allan rhyw eli yr hwn sydd yn alluog i dawelu holl dymmestloedd moroedd adfyd? A ydyw, fel rhyw athronydd mawr, wedi cael cip-olwg ar rai o ddirgeloedd natur, y rhai ydynt hyd etto yn cael eu mantellu oddiwrth lygaid dynion yn gyffredin? A ydyw wedi gweled tu cefn i ryw lèn, olygfeydd y rhai ydynt yn cyffrou tannau sydd hyd etto yng nghwsg ym mynwesau y rhan amlaf o'i gyd-ddynion? Na! nid un felly ydoedd etifeddiaeth y Salmydd. Nid oedd ei etifeddiaeth ef ond un y gall pob dyn ei meddiannu

a fyddo yn ewyllysio. Nid yw peroriaeth y Salmydd yn cyfodi ond oddiar beth sydd o fewn cyrhaedd pawb.

O mor naturiol y mae yn canu! Y mae pob gair yn dylifo oddiar galon orlawn o ddiolchgarwch. Nid yw yn dywedyd, "eisteddaf i lawr i gyfansoddi cân." Y mae'r gân yn ffrydio oddiar deimladau ei natur, fel cân yr uchedydd nid am fod rhai yn ei geisio, ond am fod y chwant yn y galon. "Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd." Y mae yn canu am ei fod yn teimlo llawenydd yn ei Dduw. Y mae yn canu am fod ganddo Dduw i ymorphwys arno. "Cenwch i'r Arglwydd." Y mae tannau pereiddiaf ei galon yn seinio! Na, nid yw y Salmydd yn canu am fod ganddo ryw etifeddiaeth neillduol, y mae yn canu am ei fod wedi cael etifeddiaeth yr hon y gall pob dyn ei meddiannu. Y mae yn canu am ei fod yn teimlo yn ddiolchgar. Y mae ei galon wedi ei llanw ac y mae diolchgarwch yn llifo drosti mewn cân o fawl i'w Dduw! "Cenwch i'r Arglwydd." O, mor hyfryd y mae natur yn canu bob amser. "Cenwch iddo canys efe a wnaeth bethau rhyfedd." "Hysbysodd yr Arglwydd ei Iachawdwriaeth." "Holl derfynau y ddaear a welsant Iachawdwriaeth ein Duw ni." Y mae yn canu mawl o'i galon ac y mae yn galw ar holl offerynau cerdd i uno yn y gydgan—y delyn, yr udcorn, y cornet. Y mae yn myned i waered i'r môr ac y mae yn galw ar fil-myrdd chwerthiniadau ei dònau i uno yn eu mawl i'r Arglwydd. O'r cysur oedd y Salmydd yn ei dynu oddiwrth ei olygiadau am Dduw! O, pwy na feddiannai y grefydd a fyddai yn gysur ac yn ddiddanwch iddo yn holl sefyllfäoedd bywyd! Y mae lle i ofni nad yw ein crefydd ddim yn hyn i ni;—nad ydym ni ddim ar bob amser ac ym mhob sefyllfa yn alluog i dynu oddiwrth ein crefydd y balm sydd yn dofi pob clwyf;—nad ydym ni ddim ar bob amser yn cofio fod llaw Rhagluniaeth ddoeth a daionus yn estynedig dros wyneb yr holl ddaear. Yn awr cyfyngder y mae'r meddwl yn dueddol i redeg i ammheuaeth, ac i ofyn pam y mae gofid a galar yn cael eu caniatau i anurddo'r bywyd hyfryd hwn?—pam y caniateir i groesau i ddyfod i'n cyfarfod? Ac aml ac amrywiol ydyw'r attebion a roddir. O am gael neith a sefydlogrwydd i'n ffydd!

Y mae'r fam fwyn dyner wrth gawell ei baban yn darllen yn ei wynebpryd rhosynaidd orchestion ei fywyd dyfodol, ond wele'r blodeuyn hardd, cyn braidd ymagor, yn cael ei dòri ymaith. Y mae'r bachgen ifange ym mlodeu ei ddyddiau yn gwneuthur addewidion a dyfeisiadau,—yn adeiladu castellau gorwych, ond nid yw wrth hyny yn ychwanegu un funyd at hyd ei fywyd. Y mae'r fwyall yn taro wrth fôn y pren, y mae'r pren yn gwywo ac yn marw. Y mae rheolau natur felly yn cael eu cyflawni, yn anymddibynol ar ewyllys dyn. Nid oes dim a ddichon dyn ei wneuthur yn alluog i droi un o lwybrau natur o'i gyfeiriad appwyntiedig. Y mae'r ifange a'r hen, y gwybodus a'r anwybodus, y naill fel y llall yn syrthio yn ysglyfaeth i ddwylaw yr angeu. Nid yw natur dderbyniwr wyneb. Y mae yn dwyn cosp yn ddiwahaniaeth ar bawb fyddo yn troseddu ei chyfreithiau. Os yw'r meddwyn yn penderfynu ymglymmu wrth ei chwant, y mae natur yr un mor benderfynol i ddwyn y canlyniadau ar ei ôl—ac nid yw pob trosedd newydd ond casgen newydd o bowdwr dan sylfaen iechyd a bywyd i frysio'r dyn oddiar chwareufwrdd amser. Etto nid yw natur fel rhyw beiriant mawr difywyd, yn gweithio trwy rym rhyw nerthoedd celfyddydol, yn anymddibynol ar un math o fod deallus, fel yr agerbeiriant yn llethu y plentyn diniwed, yr hwn yn ei anwybodaeth sydd yn dyfod yn rhy agos i'w thiriogaeth. Y mae yn

natur bob achos yn dwyn ei effaith, ond y mae yr holl achosion a'r holl effeithiau o dan lygad holl-bresennol Bod doeth a daionus, yr Hwn sydd yn arwain dynolryw o radd i radd at berffeithrwydd, at ddaioni ac at ddedwyddwch. Y mae yn gweinyddu cosp am bob trosedd, ond er lles y troseddwr yn wastad y mae Efe yn gospi. Yn ei gariad y mae ar bob amser yn ein ceryddu, ïe, y mae yn ein ceryddu *o herwydd* ei fod yn ein caru, &c. C.

YMLUSGIAID.

Y MAE'R ymlusgiaid yn fwyaf lliosog mewn gwledydd trofanawl; y mae'r rhywogaethau yn lleihau yn raddol mewn nifer oddiyno i'r pegynau. Er engraff, y mae dau cymmaint o rywogaethau yn y cylch crasboeth ag sydd yn y cylchoedd tymmherus. Y mae'r lleihad yn nodadwy iawn mewn llinell yn rhedeg o'r deheu-ddwyreiniol i'r gogledd-orllewinol ar yr Hen Gyfandir. Tra y maent yn lliosog iawn gerllaw'r cyhydlin, yn Italia a'r ynysoedd cyfagos nid oes ond 47 o rywogaethau, yn Ffraingc 31, ym Mhrydain dim ond 14, ac yn Iwerddon dim mwy na 5. Y mae y rhywogaethau i gyd yn 657, ac y maent yn cael eu rhanu gan Cuvier i bedwar dosparth: melwiogasau *(tortoises)* 69 rhyw; madfeillod *(lizards)* 203; nadroedd *(serpents)* 265; brogäod *(frogs)* 120. O'r rhai hyn y mae'n ymddangos fod rhai brogäod a nadroedd yn alluog i ddioddef cryn dipyn o oerfel; ceir un math o froga yn y Pyrenees mor uchel i fyny a 7700 troedfedd uwchlaw gwastad y môr, ac ar yr Alps yn union odditan linell yr eira. Y mae'r neidr gyffredin yn byw ar yr Alps 5300, a'r abwydyn dall tua 6000 o droedfeddi uwchlaw'r môr. Y mae tua 58 o fathau o nadroedd gwenwynig yn bod, y rhai o'u cymmharu â'r holl nifer o rywogaethau ydynt yn gwneuthur i fyny rhyw ychydig yn rhagor nag un o bob pedwar. Rhai o'r nadroedd mwyaf n weidiol ydyw'r *adder*, y for-neidr a'r neidr a phen trienglog. Ceir *adders* yn America, Awstralia ac Affrica, ond yn neillduol o fewn y trofanau; cyfarfyddir a'r môr-nadroedd, rhai o honynt yn ffyrnig iawn, yn yr Indian Ocean, ac yn y Bay of Bengal; y mae'r nadroedd a'r penau trionglog yn cynnwys *rattle-snake* America, ynghyd ag amryw fathau o wiberod. Ceir y wiber gyffredin yng nghanol-barthau Europe, yn Lloegr, ac mor bell i'r gogledd a Sweden; yn Asia y mae yn myned mor belled i'r gogledd a Llyn Baioral. Ymhlitb y rhai mwyaf o'r nadroedd y mae *boa* America Ddeheuol,—yr hon sydd o 9 i 15 troedfedd o hyd; y mae math arall ag sydd yn preswylio ar lanau afonydd, yr Amazon, &c., yn 20 troedfedd o hyd, y mae'r *python* hefyd ar yr Hen Gyfandir yn 20 troedfedd. Y mae'n ffaith hynod nad oes dim nadroedd yn ynysoedd y Môr Tawel, er eu bod yn lliosog iawn yn yr India Ocean. Nid oes dim chwaith yn Iwerddon. Y mae madfeillod yn lliosog iawn o fewn y trofanau yn America Ddeheuol; y maent yn gyffredin iawn hefyd yn Europe; yn Italia y mae 17 o rywogaethau. I ddosparth y madfeillod y mae'r *chamelion* yn perthyn, yr hwn sydd mor nodedig am gyfnewidiad ei liw: cyfarfyddir ag ef yn Affrica, Asia a Spain. Y mae'r mathau mwyaf yn cynnwys *crocodile* Affrica, *alligator* a *caiman* America, a *gavial* y Ganges ac afonydd mawrion ereill yn yr India. Yn y creaduriaid hyn y gallwn ganfod nod arall o amcan a bwriad daionus. Y mae afonydd gwledydd poethion, yn neilliduol y rhai hyny sydd ar amserau yn llifo dros eu ceulanau, yn cynnwys rhyw wmbredd aruthrol o bethau ar hanner pydru, ysgerbydau (*carcases*) creaduriaid wedi boddi yn ystod y

llifogydd, &c., y rhai pe caniateid iddynt i aros ac i bydru yno, a ammhurent yr awyrgylch yn ddrwg iawn. Eithr yr afonydd yma ydyw hoff gyrchfaoedd y *crocodile* a'r *alligator*, ac abwy o'r fath yma yw'r bwyd hoffaf gan eu stymog gwangcus, ac yn y modd hyny y maent yn foddion i symmud ymaith y drwg. Ceir *tortoises* yn Europe, yn y parthau gerllaw Môr y Canoldir; yn Affrica lle y maent yn lliosog iawn; yn ynysoedd y Sunda ac yn America. O'r rhywogaethau sydd yn byw ar y tir ac yn y dwfr, yr un mwyaf defnyddiol ydyw'r mor-gragen-grange gwyrdd *(green turtle)*, yr hwn sydd yn cael ei ystyried yn fwyd moethus iawn; y mae yn cyfanneddu ar ororau trofanawl yr Atlantic, ac y mae yn aml yn cyrhaedd 600 neu 700 o bwysau; a'r *hawksbill turtle*, yr hwn a ddelir ymhlith y Molluccas, ac i'r gogledd-orllewinol i New Guinea. Oddiwrth yr olaf yma y ceir y defnydd a adnabyddir wrth yr enw *tortoise-shell.*—*Manual of Physical Geography*, pp. 118, 119.

LLYFRAU.

Ar ddechreu'r ddegfed ganrif yr oedd llyfrau mor brin yn Spain, fel yr oedd un Beibl yn aml yn gorfod gwasanaethu amryw fonachdai. Yr oedd prisiau llyfrau mor uchel, fel yr oedd dynion o ffortun gyffredin ddim yn gallu fford'o i'w prynu. Yn y flwyddyn 1174 prynodd Walter Prior, o St. Swithin, yn Winchester, gan y monachod yn Winchester, Homiliau Beda, a Sallwyr St. Austin, am 12 mesur o haidd, a llen elawr *(pall)*, ar yr hwn yr oedd wedi ei frodio mewn arian, hanes troedigaeth brenin Saesonaidd gan Biriuas. Tua'r flwyddyn 1255, rhoddodd Roger de Insula, Deon York, amryw Feiblau Lladin i University Oxford, ar y telerau fod y myfyrwyr a fuasai yn eu darllen yn rhoddi gwystl gocheliadol *(cautionary pledge)*. Yn 1299 benthyciodd Esgob Winchester ym mynachlog ei eglwys gadeiriog, yn St. Swithin, yn Winchester, Feibl a nodiadau ar ymyl y ddalen, ac ymrwymodd i'w ddychwelyd yn ol trwy roddi *bond*, yr hon a dynwyd i fyny gyda difrifoldeb anghyffredin. Am rodd o Feibl a 100 *marks* (£66 13s. 4d.) i fonachlog yr oedd y monachod yn sefydlu offeren ddyddiol dros enaid y rhoddwr. Os buasai i ryw berson roddi llyfr i dŷ crefyddol, yr oedd yn credu fod rhodd mor werthfawr yn teilyngu iachawdwriaeth dragwyddol, ac yr oedd yn ei gyflwyno ar yr allor gyda seremoni mawr. Rhoddodd Prior a Chonvent Rochester allan y buasai iddynt bob blwyddyn gyhoeddi dedfryd damnedigaeth nas gellid ei ddiddymu ar yr hwn a fuasai yn lladrata neu yn cuddio cyfieithiad Lladin o Poetics Aristotle, neu hyd yn oed yn dadlythyru'r teitl. Rhoddid llyfr i fonachdŷ weithiau ar y telerau fod y rhoddwr yn cael y defnydd o hono dros ei fywyd. Cyn y flwyddyn 1300 n'd oedd llyfrgell University Oxford yn cynnwys ond ychydig draethodynau, y rhai oeddynt yn cael eu cadwyno neu eu cadw mewn cistau yng nghafell Eglwys St. Mary. Un o ddeddfau Eglwys St. Mary yn 1146 yw, nad oedd un ysgolor i gadw llyfr yn y llyfrgell uwchlaw awr neu ddwy o bellaf.—*Ince's Outlines of General Knowledge*, *p.* 68.

Diarebion gwerth eu cadw.—Y mae dynion byrbwyll yn yfed gwin bywyd yn ferwboeth.—Angeu yw yr unig feistr sydd yn cymmeryd ei weision heb garacter.—Pan byddo balchder a thlodi yn priodi eu gilydd, eu plant yw angen a throsedd.—Lle byddo gwaith caled yn lladd deg, y mae diogi yn lladd cant.—Y mae ffolineb a balchder yn rhodio ochr yn ochr.—Y mae'r hwn sydd yn benthyca yn ymrwymo wrth râff ei gymydog.—Y mae'r hwn sy rhy dda i gyngor yn rhy dda i fod yng nghyfeillach ei gymydog.—Nid yw cyfeillion a *photographs* byth yn gwenieithio.

YR "ESSAYS AND REVIEWS."

O'R diwedd cafwyd dybeniad ar yr erlyniaeth glerigol ac esgobyddol yn erbyn Dr. Rowland Williams a Mr. Wilson, dau o'r traethodwyr yn yr *Essays and Reviews.* Yr ydys yn cofio y twrw mawr a fu ar y dechreu, a'r chwythu byggythion yn erbyn y ddau offeiriad hereticaidd. Ni fuasid ar y pryd byny yn boddloni ar ddim yn llai nâ difuddio y ddau droseddwr (fel eu cyfrifid) o'u bywiolaethau—Dr. Williams o ficeriaeth Broad Chalke yn esgobaeth Salisbury, a Mr. Wilson o ficeriaeth Great Staughton yn esgobaeth Ely—a'u bwrw hwynt allan o'r Eglwys gyda dedfryd gondemniol—er rhybudd i'r neb ymhlith yr offeiriaid a anturiai ar rydd ymchwiliad i athrawiaethau crefydd, a chwestiyno yr un o'r gosodiadau uniongred; ac er dangos i'r byd i fod eglwys sefydledig ein gwlad, trwy rym ei herthyglau sylfaenol, yn alluog fel y mae yn benderfynol i gau allan bob rhyw heresiau a phob rhyw amrywiaeth athrawiaethol. Ond yn y diwedd (os diwedd hefyd) trodd y dysgwyliadau hyny yn siomedigaeth, a daeth y bygythion i'r dim. Yn ôl dedfryd y llŷs uchaf yn y deyrnas y mae y diffynwyr wedi cael eu gadael mewn cyflawn feddiant a mwynhad o'u swyddedigaethau eglwysig, heb fod yn golledwyr mewn dim ond y costau a'r trafferth cydfynedol â'r erlyniaeth yn y *Court of Arches.* Edrychid ar ddedfryd Dr. Lushington yn yr Archlŷs fel un dra ffafriol i'r diffynwyr (a llawer mwy ffafriol nag y dymunai ac y dysgwyliai yr erlynwyr uniongred); ond y mae eu rhyddhad gan y Cyfrin-gynghor—y llŷs uchaf oll—yn ormod o beth braidd i'r esgobion a'r nifer anferth o offeiriaid a ddarfu wrth-dystio mor benderfynol yn erbyn heresiau yr *Essays and Reviews*, i aros yn dawel a boddlongar dan eu siomedigaeth. Nid yw yr Ymneilldiwyr ychwaith ar y cyfan yn ymddangos wedi eu boddhau gan y dded'ryd; ond y gwrthwyneb. Peth newydd oedd cael allan, fod wedi'r cyfan helaethach rhyddid i ymofynwyr yn y llan nag a ganiateir yn y capel.

Pa fodd bynag dygwyd y ddadl i benderfyniad cyfreithiol ar y 5ed dydd o Chwefror. Fel y sylwyd eisioes, wedi rhoddi gwrandawiad cyflawn i'r ddwy ochr, darfu Dr. Lushington wrthod y rhan fwyaf o'r cyhuddiadau a ddygid yn erbyn y diffynwyr, a gorchymyn i eraill gael eu diwygio; ac ar sail y rhai a ystyrid ganddo ef yn safadwy, dedfrydodd Dr. Williams a Mr. Wilson i gael eu hattal rhag gweinyddu eu swydd, a'u hamddifadu o'u bywioliaethau am un flwyddyn, gan eu rhybuddio i beidio troseddu yn gyffelyb rhagllaw; a'u condemnio i dalu y costau.

Fe appeliodd y diffynwyr yn erbyn y ddedfryd hon at Farnwyr y Cyfrin-gynghor; ac oddeutu saith mis yn ol dadleuwyd y ddau achos o flaen yr Arglwydd Ganghellydd, y ddau Arch-esgob, Esgob Llundain a'r Arglwyddi Cranworth, Chelmsford, a Kingsdown. Yr oedd y llŷs yn orlawn ar y dydd appwyntiedig pan y darllenodd yr Arglwydd Ganghellydd y ddedfryd a gytunasid arni. Ei sylwedd ydoedd—"Fod i'r dedfrydau gael eu diddymu, a'r cyhuddiadau gael eu gwrthod yn yr un modd ag y gwrthodwyd y cyhuddiadau eraill yn y llŷs isaf, sef heb y costau; ond gan fod y diffynwyr wedi appelio, tybiai ei Harglwyddiaethau ei bod yn iawn iddynt gael cost eu happeliad. Y cyhuddiad a roddid yn erbyn Dr. Williams, oedd, ei fod yn dysgu athrawiaethau croes i Erthyglau yr Eglwys Sefydledig ar Ysprydoliaeth yr Ysgrythyrau a Chyfiawnhad trwy Ffydd—ac yn erbyn Mr. Wilson, ei fod yn gwadu dilysrwydd rhanau o'r Llyfrau Canonaidd, ac wedi ysgrifenu yn erbyn yr Athrawiaeth o Dragwyddol Gospedigaeth yr Annuwiol.

Haerai y Barnwyr nad oedd y brawddegau a ddyfynasid o'r *Essays and Reviews*, yn profi y cyhuddiadau hyn ; a'u bod yn methu canfod dim ynddynt yn groes i Erthyglau yr Eglwys Sefydledig. Bu yr Arglwydd Ganghellydd yn bur ofalus i roi ar ddeall, nad oedd efe a'i gydfarnwyr yn cymmeryd arnynt i gyhoeddi eu barn o barth i gynnwysiad a thueddiad y llyfr a achwynid yn ei erbyn, nac ychwaith ar gyfeiliornad neu wirionedd yr honiadau a wnaed gan y diffynwyr, ond yn unig ar eu cyssondeb neu eu anghyssondeb â'r Erthyglau. Hyspysodd hefyd fod y ddau Arch-esgob yn anghytuno â'r lleill o'r Barnwyr o barth i'r cyhuddiad ynghylch y pwngc o Ysprydoliaeth. Mae y ddedfryd hon wedi peri syndod nid bychan, a galar ac anghymeradwyaeth mawr ymhlith pleidwyr *orthodoxy*, ofewn ac oddiallan i'r Eglwys Sefydledig. Nid yw hyny ond y peth a ellid yn naturiol ei ddysgwyl. Mae y crefyddwyr poblogaidd, yn Ymneillduwyr ac yn Fethodistiaid yn gystal âg Eglwyswyr, wedi dangos mewn amryw ffyrdd, ond pob plaid yn ei threfn a'i dull ei hun, eu bod ymhell o fod yn anfoddlon i sefydlu erthyglau cred : ac y maent hefyd (oddiar wir gred os nid argyhoeddiad, rhaid gobeithio) yn edrych ar yr athrawiaethau y cyhuddid Dr. Williams a Mr. Wilson o'u gwadu, fel gwirioneddau anhebgorol ac egwyddorion Protestaniaeth : sef, dwyfol ysprydoliaeth ac anffaeledigrwydd pob darn a phob adnod, &c., o'r Ysgrythyrau Canonaidd, ynghyd â'r athrawiaethau o Gyfiawnhad trwy ffydd, neu drosglwyddiad haeddiant a Chospedigaeth diddiwedd. Ac am hyny y mae gwaith fod esponwyr awdurdodedig y gyfraith Eglwysig, a'r llŷs uchaf yn y deyrnas—yn cyhoeddi eu dedfryd nad ydyw y cyfryw athrawiaethau i'w cael wedi eu gosod i lawr yn Erthyglau Ffydd Protestaniaid Lloegr dri chan mlynedd yn ôl—yn dramgwydd o'r mwyaf, ac anfaddeuol braidd. A chyhoeddir hyn hefyd yn Gath, ac yn heolydd Ascalon : hyn sydd waeth nâ'r cwbl. Ond, ar yr un pryd, dylai y rhai sydd yn condemnio golygiadau y diffynwyr dysgedig mor ddiarbed, fod yn ofalus i beidio eu camddarlunio. Un peth yw dal fod pob darn ac adnod o'r Beibl wedi ei hysgrifenu dan ysprydoliaeth Duw, ac efelly peryglu ffydd yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd ; peth arall yw derbyn yr Ysgrythyrau fel yr hyn y proffesant eu bod, ac i'w parchu a'u hiawn-ddefnyddio fel ffynonellau gwir addysg a gobaith ac iechydwriaeth. Ac am waith Dr. Williams yn myntymio mai ffug *(fiction)* yn gyfangwbl yw yr athrawiaeth o Gyfiawnder Cyfrifol neu drosglwyddiad haeddiant ;—mae'n amlwg nad yw ond appeliad uniongyrchiol at reswm a deall pob dyn ag sy'n credu y bydd barn gyfiawn, ac yn enwedig os bydd yn gwybod rhywbeth am hanes y dduwinyddiaeth boblogaidd. Ond ar Mr. Wilson yr edrychir fel yr heretic gwaethaf, a hyny yn benaf am ei fod yn coleddu *gobaith* am adferiad y colledigion yn y byd tudraw i'r bedd. Gan fod golygiadau'r gwr dysgedig ar y pwngc yn cael eu camddeall, nid yw ond teg i'w gosod i lawr yn ei eiriau ei hun.

"Nis gall yr Eglwys Gristnogol ond yn unig gweinyddu i'r rhai a roddir dan ei gofal, hyd at ymyl y llynclyn hwnw sy'n rhanu rhwng y byd hwn a'r byd anweledig. Mae rhyw ychydig o'r rhai a feithrinwyd ganddi yn awr yn addfed ac yn barod i ddechreu ar uwch gyrfa ; y rhan fawr—yn mhell o fod felly—nid y'nt ond ysprydoedd mewn cyflwr dechreuol ac amherffaith—eneidiau had-flagurol, Pa beth a ddaw o honynt ? Os edrychwn ar y byd oddiamgylch ac ystyried cymmeriad canolig *(neutral)* y lluaws, yr ydym yn methu gwybod pa fodd yn iawn i gyfleu attynt, naill ai addewidion neu fygythion dadguddiad. . . . . .

Y mae Eglwys Rhufain wedi dychymygu 'limbus infantium' (goror babanod); rhaid i ni yn hytrach letŷa gobaith, y bydd, ar ôl y farn fawr, leoedd i'w cael cym-

mwys i ddderbyn y cyfryw a fyddant *fabanod*, nid o ran blynyddau o fywyd ar y ddaear, ond o ran dadblygiad ysprydol—maethfaoedd *(nurseries)* megys, er egino'r hadau, ac er meithrin plannigion gwan, lle y bydd i'r rhai nas dadblygwyd hwynt *(the undeveloped)* i gael tyfu dan amgylchiadau newydd—y rhai a rwystrwyd yn eu tyfiant i gael dyfod yn gryfion, a'r rhai a gamdröwyd i'w hadferu. A phan y bydd yr Eglwys Gristnogol wedi cyflawni ei gwaith a'i swydd ddaiarol—pan y bydd ei Hawdwr wedi rhoddi i fynu EI deyrnas i Dduw a'r Tad—bydd i bawb—fychain a mawrion, gael noddfa yn mynwes y Tad cyffredinol, i orphwys, neu i gael eu bywiocau i fywyd uwch, yn yr oesoedd i ddyfod, yn ol ei Ewyllys Ef."

Yn y ddedfryd dywedodd yr Arglwydd Ganghellydd ei bod yn gysson â'r Erthyglau i offeiriad gael lletŷa y cyfryw obaith. Ac ar y pen ychwanegodd i ddywedyd yr hyn oedd yn newydd i ni, fel yn ddiau i eraill: sef, bod erthygl ymhlith y rhai a sefydlwyd dan Edward VI. ag oedd yn condemnio yr athrawiaeth o Adferiad, ond i'r erthygl condemniol gael ei dòri allan yn 1562.

Ymhlith pethau eraill, dangosa'r ddedfryd a'r achos o honi fod cyfraith y tansgrifiad i erthyglau, &c.—hen argae yr eglwys—wedi troi i maes i fod yn aneffeithiol er cadw allan anghydffurfiad barn. Cafwyd fod bylchau ynddo yma a thraw, digon llydain hyd yn oed i'r *Broad Church* fyned drwyddynt. Nid heb achos yr edrychir ar y ddedfryd a guttunwyd arni gan y Barnwyr, fel yn ddim amgen nâ rhyw *shift* er gochelyd rhwygiad eglwysig ac i gadw pethau yn dawel am dipyn etto. Dychwelwn, o bosibl, at y pwngc maes o law. Rhaid i ni yn awr derfynu. I.

YCHYDIG EIRIAU AM ACHUBIAETH.

YMDDIDDAN MEWN BWTHYN.

"BETH Jane, ti sy' 'na? Ffor' wyt ti wedi dod tshar thrê?

Menyw dlawd, welw ac afiach, yn eistedd ger llaw'r tân, yn amgylchynedig â gobenyddiau ydoedd, yr hon a siaradai felly wrth ei merch, menyw ifangc hardd, yr hon oedd newydd ddyfod i mewn, un prydnawn dydd Sul.

"Fe wetws mishtras," meddai Jane yn atteb, "y busa hi yn gofalu am y bapa bach ei hunan, y dywetydd hyn, i fi gal dod tshar thrê i gal tê gita chi a Sali."

"Wel yn wir ma mishtras dda garedig gita ti Jane."

"Wel ôs, wir," meddai Jane, fel yr oedd hi yn tynu ei bonnet i lawr, ac yn gosod potaid da o *jelly nice* ar y bwrdd, yr hwn yr oedd ei meistress wedi ei ddanfon gyda hi i'w mam glaf, "ac *y mâ* hi a mishtir *yn* caru ac yn gwasnaethu Duw a'u cyd-ddynon, er eu bod nw'n wilia mor od."

"Beth yw dy feddwl di, Jane?"

"Beth," meddai Jane, "pan o'n i'n aros ar gino heddy', nhw ddechreuson' wilia bythti brecath y bora, a fi glywas mishtir yn gweyd nag odd a ddim yn cretu mewn iffarn. A phan dishgwilas i, i weld mishtras yn arswydo, hi wetws yn dawal nag odd hitha ddim hefyd, ac nag odd hi ddim yn lico'r gair 'achubiaeth' chwaith; a bod hi yn meddwl fod y geira hyny wrth weilod llawar iawn o ddrwg."

"Wel," meddai'r fam, "alla i ddim i neithir a mâs; ô'n i'n meddwl fod y gair 'achubiaeth' yn un o'r geira mwya bendigetig allsan ni glywad."

"Fe gymmerws y gwnitog ifangc y'n *class* ni heddyw," meddai Sali, y chwaer iengaf, yr hon oedd newydd ddyfod i mewn o'r ysgol Sul, fel yr oedd hi yn gosod y cidl tê ar y tân, ac yn dechreu tynu'r llestri allan i'r bwrdd,

"ac fe ofynws gwestyna i ni *round about* bythti achubiaeth a bythti iffarn, ac ôdd neb o ni yn lico attab, ac fe wetws wthto ni am feddwl o bythti nw yto yn yr wthnos. Beth, mam, dyco fa'n dod."

"Acor y drws, Sali, ac erca gatar i'r gwr boneddig i gal ishta lawr."

Wedi ychydig ofyniadau cydymdeimladol ynghylch y fam glaf, adnabyddodd Mr. P., Sali, fel un o'r merched oedd wedi bod yn y dosparth gydag ef yn yr ysgol yn y prydnawn, a dywedodd wrthi, "Wel, doeddach chi ddim yn *seemo* bod yn gwybod beth i'w wneud o'r hyn o'wn i yn ddeyd wrthoch chi yn y prydnawn; a alla i roi rhyw help i chi i atteb y cwestiyna erbyn y Saboth nesa?"

Yr un cyntaf ydoedd—Beth ydyw achubiaeth?"

"*Myned i'r nefoedd!*" meddai Sali.

"*Cael ein hachub o iffarn*," meddai Jane, gan ddangos gwybodaeth gywirach o'r ystyr a gyssylltir â'r gair yn gyffredin.

"Ac a ydach chi yn disgwyl cael mynad i'r nefoedd ai ynta i uffern?" Nid oedd yr un atteb i'r gofyniad hwn; aeth yntau rhag ei flaen—"ac i ba un dybygech y mae eich cyfeillion colledig wedi myned?" Canlynwyd y gofyniad hwn hefyd gan ddistawrwydd anesmwyth, oblegid yr oedd gwr a thad y tŷ hwnw wedi bod yn ddyn segur, meddw; ac etto nid oeddynt erioed wedi bod yn alluog i feddwl ei fod wedi myned i uffern ddiderfyn, tra ar yr un amser nid oeddynt yn teimlo fod ganddynt sail dda i ddywedyd ei fod yn y nefoedd. "Nid oeddwn i ddim yn disgwyl yr un atteb, gyfeillion," meddai y gweinidog ymhen tipyn bach; "y mae gan bobl yn gyffredin ryw deimlad gwan, yr hwn ni fynant ei aflonyddu, nad ydan' nhw ddim yn ddigon drwg i uffern, ac am hyny, rhyw fodd neu gilydd, y rhaid mai nefoedd sydd i fod i nhwy a'u cyfeillion. Er hyn oll y maent yn tybied mai peth ofnadwy ydy peidio a chredu mewn uffern, ac er yr holl athrawiaethau mewn perthynas i'r rhai a fyddant gadwedig, y rhai ydynt yn dysgu y bydd y rhan amlaf o ddynolryw yn golledig, nid ydw i ddim etto wedi cwrdd a neb sydd yn credu mewn gwirionedd y bydd un o'i gyfeillion ef o nifer y cyfryw. Tybia ein cyfeillion uniongrediniol y gallant gael eu cuddio a gwisg cyfiawnder Crist; ond cânt eu bwrw allan oni fydd ganddynt wisg briodasol o'r eiddynt eu hunain, ac ni agorir y drws os llefain 'Arglwydd, Arglwydd,' yn unig a wnânt, a *pheidio* gwneuthur y pethau a orchymmynodd efe. Ond pa beth a ddywedwn ni yr Undodiaid?"

"'Ry'n ni yn gobitho câl mynd i'r nefoedd trw drugaredd Duw," meddai Jane a Sali gyda'u gilydd.

"Gwir, y mae efe *yn* drugarog," meddai Mr. P. mewn llais difrifol, "ac o herwydd hyny nid wy'n gallu credu y denfyn Efe neb i Uffern dragywyddol a diobaith! Ac heblaw hyny nid oes yr angen i ni osod i fyny athrawiaeth mor arswydus er mwyn deall y bydd y gosp rhag yr hon y mae ein Hiachawdwr yn ein rhybuddio yn gosp wirioneddol, yn gosp ofnadwy. Pe byddai i Dduw o'i fawr drugaredd osod dyn drwg,—dywedwch ddyn yn meddwl am fwrdra, yn llosgi am ddial, neu yn gynddeiriog gan chwantau drwg,—mewn paradwys o'r hyfrytaf, a fyddai efe yn ddedwydd yno? Neu, pe gosodid ef ymhlith bodau pur, oni chashäai efe hwynt, oni ymgadwai ymhell oddiwrthynt? Neu os ydych yn credu fod yr enghraifft yma yn rhy anghyffredin, meddyliwch yn onest, a allech chwi eich hunain fod yn ddedwydd yn y màn mwyaf hyfryd, pe byddech mewn natur ddrwg, neu ynte yn cywilyddio yn fawr oherwydd rhyw beth a fyddech wedi ei wneuthur?

Dyna pam nas gallaf fi ddim a meddwl mai dim ond myned i ryw un lle neu ddiange o ryw le arall, yw achubiaeth. Y mae achubiaeth yn myned yn ddyfnach na'r gofyniad *pa le* y mae dyn. Y mae ganddo fwy i'w wneud a *pha beth* ydyw. Credwch fy ngair i, Sali, nid ydw' i ddim yn credu fod rhyw un lle a elwir nefoedd, lle y gall pobl ag unrhyw ddrwg ynddynt (ac y mae drwg ymhawb o honom) fyned a bod ar unwaith ac am byth yn berffaith ddedwydd; a chredwch chwithau fy ngair i, Jane, nis gallaf fi ddim credu fod rhyw un lle a elwir uffern, yn yr hwn y gall un dyn, o'r gradd lleiaf neu'r gobaith lleiaf o ddaioni ynddynt (fel, diolch i Dduw, y gall fod ymhawb) am byth ac am byth yn golledig ac mewn trueni. Yn awr meddyliwch etto—Beth ynte ydyw achubiaeth?"

"*Achubiaeth oddiwrth y'n pechota*,' 'ta, iefa syr?" meddai Jane.

"Dyna fe i'r blewyn."

"Wel, ffor' ma 'chubiaeth nta yn air peryclus? wath fi glywas i mishtir a mishtras yn gweyd i fod a, a nag o'n nhw ddim yn lico i uwso fa."

"Oherwydd," meddai Mr. P., "ei fod yn air sy'n cael ei gamuwso. O'i iawn-ddefnyddio y mae yn air gogoneddus, ond o'i gam-ddefnyddio y mae yn gwneuthur dynion yn esmwyth mewn perthynas i'w pechodau, ac yn propio i fyny bob math o syniadau gau o barthed i'r hyn sydd yn angenrheidiol fel ymbarotöad erbyn marw. Gan feddwl am dano fel rhywbeth yn unig yn dal perthynas a'r lle y maent yn myned iddo, y maent yn teimlo yn *all right* os gallant yn unig lwyddo i gael mynediad i'r lle da. Felly y mae dynion yn gyffredin yn meddwl am 'achubiaeth oddiwrth ganlyniadau eu pechodau,' ac nid oddiwrth bechod ei hunan. Dywedant y glanhâ Crist chwi ar unwaith, ond yn unig i chwi gredu. Clywais ddywedyd unwaith, 'Deuwch at Grist, goreu po fryntaf,' aml y clywir, 'deuwch ato fel yr ych chi.' O, *y mae* hona yn athrawiaeth beryglus, oherwydd welwch chi yr hyn a feddyliant yw, nid troi at Grist i ddechreu bod yn well, nid oes eisieu aros am ddim at wneud hyny, ond mor gynted ag y byddont felly yn troi ato ef, ac yn credu ei fod ef wedi ei gospi drostynt, y gallant edrych am sicrwydd eu bod yn ddiogel am achubiaeth, nid trwy ei fod ef yn eu gwneuthur hwy yn well, ond trwy ei fod wedi prynu mynediad i'r nefoedd iddynt fel ag y maent."

Ust!" meddai'r fam glaf, dyco Annie fach, drws nesa'n llefain. Mae hi yn cael ei whippo greda i; fi wn fod calon 'i mam yn gwynccu yn wa'th na'i chalon hi oherwydd bod hi'n gor'od 'i chospi hi."

"Paham ynte, wraig dda, y mae hi yn ei chospi," meddai Mr. P.

"Pam! syr, pam ond i beri iddi neithir yn well y tro nesa bid sicr."

"Ond, 'rwy'n sposo, os ydy hi yn caru ei phlentyn gymmaint, nad yw hi ddim ond yn dymuno i'r plentyn i fod yn ddedwydd; a pham nad yw hi yn ei adel i wneud fel y mynno?"

"Pam!" meddai'r fam glaf, mewn modd penderfynol, "gŵyr pob un sydd wedi gor'od dwyn plant i fyny, mai nad dyna fel ma'u gnithir nw yn ddedwydd. Nis gall neb fod yn ddedwydd os nad ynt yn iawn ynynt eu hunain, gadewch iddynt fod mor benrydd ag y mynnoch. Mae'n *rhaid* eu dysgu nw," meddai hi, gan godi i fyny yn ei gwely yn ei phrysurdeb, "rhaid eu dysgu i atal eu llwybrau drycionus."

"Wraig dda," meddai Mr. P., yn codi ar ei draed, "yr ydach yn union gywir wedi desgrifio amcanion a bwriadau ein Tad o'r Nef ar ran ei blant cyfeiliornus. Y mae yn ein cospi er ein lles. Y mae yn gwneuthur felly

yma, ac os na fydd hyny yn ddigon, Efe a wna hyny etto yn llymach yn ol llaw. Os nad ydym wedi gadael ein pechod, y mae yn well i ni i gael ein cospi, ac nid oes dim doethineb mewn dymuno peidio cael hyny. Nid oes angen, yr wyf yn meddwl, i mi i ddywedyd rhagor ynghylch nefoedd neu achubiaeth wedi eu rhoddi i ni, megys ag yr ydym yn ein holl bechodau. *Rhaid* i ni i ddysgu gadael ffyrdd drwg: y mae Crist yn Achubydd i ni trwy ddysgu i ni i wneuthur hyn—trwy ddangos i ni ffordd y Bywyd, a'n helpio i rodio ynddi. Pan y byddom yn dysgu ganddo ef, ac yn ymdrechu rhodio wrth ei addysgiadau, yr ydym yn cael ein hachub. Pan, yn y byd nesaf, y byddo'r gwaith hwn yn ein eneidiau wedi ei wneuthur yn gyflawn, yna bydd ein achubiaeth yn gyflawn."—*Un o Draethodynau Brooke Herford.*

Gohebiaethau.

CYMDEITHAS LLYFRAU UNDODIAID DEHEUBARTH.

Yr y'm newydd dderbyn hyspysiad oddiwrth Ysgrifenydd y Gymdeithas uchod, y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, fod Appel Dr. Priestley yn newydd ddyfod allan o'r argraffwasg, ac yn awr yn barod i'w ddosparthu—ei bris fydd 3c. Hyderwn y bydd i'r Cyfeisteddwyr, pan gyfarfyddont nesaf—Cyfarfod Cwarterol y Pasg, yn Blaengwrach—i gyttuno ar ddwyn allan ryw lyfryn arall a welont yn fwyaf cymmwys, yn ddioedi; ac y bydd iddynt feddwl am y peth yn mlaen llaw. Deallwn fod digon o fodd mewn llaw at gyhoeddi llyfryn neu draethodyn newydd.

A ganlyn ydynt y llyfrau sydd yn bresennol yn Ystorfa Cymdeithas Deheubarth, ac ar werth:—

Ymofyniad Tawel (Belsham) ..	2s. 6c.
Salmau yr Eglwys—y ddwy gyfrol ynghyd .. .	2s. 6c.
J. James ar Haeddiant. Rhif I.	6c.
Appel Dr. Priestley	3c.

D.S. Disgwylia Mr. Thomas y bydd i'r aelodau ag ydynt wedi talu eu tansgrifiadau i anfon atto ef am y llyfrau a ddewisont eu cael.

Y llyfrynau canlynol, yn perthyn i Gymdeithas Gwent a Morganwg, ydynt yn Ystorfa yr Ymofynydd ac ar werth:—

Rhifedi'r Duwdod, gan E. Davies, Dinas	2c.
Barnedigaethau Tymhorol, a Chyfieithiad o Raphael ar Undod Duw, gan O. Evans, (ynghyd)	2c.
Crist yn Unâ'r Tad, gan J.E. Jones	1c.
Crist yn Ddoethineb Duw, gan T. Thomas	1c.
Ffydd Gadwedigol, gan O. Evans	1c.

Gellir cael yr Ymofynydd am y blynyddau a aethant heibio yn gyfrolau am haner y pris, neu yn rhifynau oddieithr Rhif. 1—4. Cyfres I.; a Rhif. 1, 2. Cyfres II.

At Olygydd yr "Ymofynydd."

Barchus Olygydd,—Syr,—Gan fy mod yn ddarllenydd cyson o'r Ymofynydd, byddai yn foddhad genyf gael ychydig o eglurhad genych chwi, neu rai o'ch gohebwyr galluog, ar Rhufeiniaid y 4 bennod, a'r 25 adnod, "Yr hwn a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni"

Mae fy meddwl yn gogwyddo at y gofyniadau canlynol sydd yn codi yn naturiol oddiwrth yr adnod uchod.

1. Pwy feddylir wrth "yr hwn?"
2. Beth a ddeallir wrth yr ymadrodd, "a draddodwyd dros ein pechodau ni?"
3. Pwy a gyfodwyd?
4. Pwy a'i cyfododd?
5. Beth yw cyfiawnhau?
6. Beth a feddylir wrth gyfiawnhau yn *yr adnod hon?*

Cynros.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn Rhif. Ionawr, tud. 24, "*Capel Cwmmwrdu,*" llin. 23 o'r gwàr yn lle "gan" darllener "*gwn;*" yn llinell 11 o'r gwaelod yn lle "anhawdd" darllener "*anhardd.*" W. T.

Hanesion Gartrefol a Thramor.

Rhybuddir ni y bydd ein gofod yn brin; am hyny rhaid i ni fyrhâu neu adael allan amryw nodiadau gwleidyddol a fwriedid eu rhoddi yn y rhifyn hwn. Gwyddom nad yw ein darllenwyr mor afresymol â dysgwyl cael llawer o newyddion *politicaidd* mewn cyhoeddiad misol bychan fel yr YMOFYNYDD. Nis gellir hyny ond mewn dull amherffaith iawn, ac nid hyny ychwaith yw amcan ein cyhoeddiad. Y mae yn rhydd i'n Gohebwyr, os bydd ganddynt olygiadau o bwys ar destunau gwleidyddol i'w gosod gerbron ein darllenwyr, os ewyllysiant, i wneud hyny. Ac y mae amlder o newyddiaduron Saesneg a Chymraeg, bellach, o fewn cyrhaedd i'r cyffredin; y rhai a gynnyrchant ddigon o fodd i siarad ac ymbleidio, ac hefyd o ffeithiau i'w pwyso gyda phwyll ac ystyriaeth. Etto y mae pob peth ag sydd yn dwyn perthynas â llwyddiant neu aflwyddiant gwladwriaethol, ac â chynnydd rhyddid gwladol a chrefyddol, ac yn enwedig â pharhâd neu helaethiad heddwch, yn tynu ac yn teilyngu sylw pob Cristion a gwladgarwr. Mewn ystyr wleidiadol yn gystal â chrefyddol, "nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw neb yn marw iddo ei hun."

Y SENEDD A'R WLADWRIAETH.—Agorwyd y Senedd ar y 5ed o Chwefror, trwy ddirprwyaeth. Nid oedd nemawr o ddim yn yr Araeth Frenhinol ag sy'n galw am ei gofnodi, ac ni chaniatâ gofod i ni roddi cyfieithad o honi. Passiwyd yr Annerchiad ar yr Araeth yn y ddau Dŷ yn ddiwrthwynebiad, oddieithr rhai sylwadau gwrthbleidiol gan Iarll Derby a Mr. Disraeli, yn achwyn ar aflwyddiant ac anfedrusrwydd y Weinyddiaeth Dramor, ac amddiffyniad Iarll Russell ac Arglwydd Palmerston mewn attebiad. Ni ddarfu y gwrthbleidwyr y pryd hyny nac ychwed'yn yn y cyhuddiadau a ddygasant yn erbyn y Weinyddiaeth, ddim cynnyg condemnio eu hamcan a'u gweithrediadau i gynnal heddwch rhyngom â'r Unol Daleithau, yn ein sefyllfa o amhleidgarwch, nac ychwaith eu beio am eu hymdrechiadau diflino a pharhaus i ochelyd neu i osod terfyn ar y rhyfel rhwng Germany a Denmarc. Ac hyd yn hyn nid y'nt wedi nodi un amgylchiad yn yr hwn y buasent hwy yn ymddwyn a gweithredu yn wahanol. Yn erbyn Arglwydd Russell a'r Weinyddiaeth Dramor y dygid y cyhuddiadau mewn modd mwy neu lai uniongyrchiol; sef, ei fod wedi ymddwyn yn ymyrgar a rhy fyrbwyll, wedi dangos diffyg o foesgarwch yn ei ohebiaeth â llysoedd Germany yn achos Denmarc, a thuag at Ymherawdwr Ffrainge yn enwedig, trwy wrthod yn bendant ei gynnygiad am gael *congress* gyffredinol er adolygu ac adgyweirio y *map* o Ewrop; ac ar yr un pryd fod ei Arglwyddiaeth wedi dangos ei hun yn rhy fwyn ac ymostyngar i'r Undebwyr Americanaidd, rhag eu hofn. Methwyd llwyddo i ddisodli y Weinyddiaeth yn achos y *Steam Rams*. Ond yn ddiau cynnygir i wneud hyny yn fuan etto, ar yr achlysur cyntaf a welir yn fanteisiol. Y mae y blaid wedi dangos eu bod yn awyddus i gael awenau y llywodraeth i'w dwylaw, ac yn teimlo eu bod yn ddigon cryf i sefyll eu tir gyda'r Tŷ presennol. Ond o'r tu arall dealla'r aelodau ei bod ar law Arglwydd Palmerston i ddadgorphori y Senedd, er eael etholiad cyffredinol, os gwelir hyny yn angenrheidiol. Y mae cynnygiad Mr. Gladstone i ganiatâu i amaethwyr i frago eu haidd at dewhau eu hanifeiliaid, yn debyg o gael myned yn y blaen heb lawer o wrthwynebiad. A bydd i amcan-gyfrifon y Llynges a'r Fyddin, wrth yr argoelion presennol, i gael eu passio yn bur rwydd. Os ceir parhad o heddwch, yn Ewrop yn enwedig, y mae pob lle i obeithio am dymmor o lwyddiant anarferol i'r wlad hon a gwledydd eraill. Ychydig wythnosau a ddengys pa un ai bydd y moddion a gynnygir gan ein Llywodraeth i'r perwyl hyny yn effeithiol ai peidio.

DENMARC A GERMANY.—Gan droi clust byddar i bob cynghor a rhybudd a roddid gan Loegr ac eraill, yn gynnar yn mis Chwefror darfu byddinoedd Awstria a Prwssia dòri i mewn i Schleswig, ac yn fuan wedi i'r Daniaid encilio o'r Danewerke cymmerasant feddiant o'r Dugaeth yn gwbl oddieithr amddiffynfa Düppel ac Ynys Alsen, y tu cefn iddynt, lle mae byddin fechan y Daniaid yn aros ar eu hamddiffyniad—yn benderfynol i sefyll eu tir hyd y gallont, yn ngwyneb ymos-

odiad eu gelynion lluosog, y rhai ydynt yr un mor benderfynol i ddefnyddio eu holl nerth i'w gorchfygu a'u darostwng. Y mae brwydrau poeth wedi bod eisioes, a rhai miloedd wedi eu lladd neu eu clwyfo yn dost.

AMERICA.—Gorfyddir ni i ohirio rhoddi helynt y rhyfel rhwng y Cynghreirwyr a'r Undebwyr hyd y tro nesaf. Sôn am gynlluniau sydd fwyaf ar y pryd hwn. Gellir dysgwyl newyddion pwysig erbyn diwedd Mawrth.

Yn Farw—

Dydd Iau, yr 28ain o Ionawr diweddaf, Sarah Evans, Fron, Llandyssil, Ceredigion, yn 35 mlwydd oed. Ychydig ddiwrnodau cyn hyn yr oedd wedi esgor ar ferch, a'i chyntafanedig; a phan yr oedd pob gobaith ac arwydd ei bod yn gwella, rhyw ddolur nerthol a'i cyrchodd, a hi a ganodd yn iach i'r fuchedd hon mewn modd tra diddisgwyl, er mawr alar i'w phriod a'i rhieni a'i brodyr, a chylch helaeth o gyfeillion a pherthynasau. Dygai fawr sêl dros yr achos Undodaidd ym Mhantydefaid er yn ieuanc, ac yr oedd yn aelod gwresog o'r gynnulleidfa er ys amryw flynyddau. Yr oedd yn gantores dda, a gwelir ei heisiau yn y cyfryw gymeriad yn fawr ac yn faith yn y côr canu. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd hi i dŷ ei hir gartref ym monwent Pantydefaid gan dorf fawr o berthynasau, cyfeillion a chydnabod. Y gwasanaeth angladdol a gyflawnwyd gan yr ysgrifenydd. Ei destun oedd "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti." T. T.

Nos Wener, y 15fed o Ionawr, yn 6 mlwydd oed, er galar mawr i'w rieni, John, mab henaf Thomas a Mary Morgan, No. 8, Mount Pleasant, Aberdar. Yr oedd yn aelod, ac yn hoff iawn o'r ysgol Sul yn yr Hen-dŷ-cwrdd, lle yr oedd trwy ei addfwynder a'i dawelwch wedi ennill sylw a chariad cylch helaeth. Chwi blant bach yr ysgol Sul, yr ydych yn cofio am dano yn awr, y mae efe yn y bedd distaw, ac ni ddaw byth yn ol yma etto, ond chwi a gewch fynd ato ef nis gwyddoch pa mor gynted. Cofiwch fod yn blant da, bob un, a chwi a ennillwch gariad eich Tad o'r nef, a chariad Iesu Grist, a chewch chwi a John bach gydgwrdd etto yn y nefoedd, lle ni bydd ymadael byth mwy. A chwithau ei rieni bydded i chwi ymgysuro yn addewidion Crist.

"Daw etto'r dydd a'n plant a gawn
I'n breichiau'n llawn llawenydd,
Mewn diniweidrwydd i gyd-fyw
A chyda Duw'n dragywydd." IOLO.

Ionawr 25ain, yn 69 mlwydd oed, Elisabeth (neu Betty) gweddw y diweddar Rees Price, Heol y-felin, Aberdar. Yr oedd wedi bod am flynyddau lawer yn aelod syml a dirodres yn yr Hen-dy-cwrdd. Ar ddydd ei hangladd (y dydd Mercher canlynol) pregethodd Mr. Rees Jones yn y capel oddiwrth 2 Cor. i. 3, 4, ac wedi hyny hebryngwyd ei gweddillion gan dyrfa liosog, dros bum milldir o ffordd i gladdfa eglwys Penderyn, lle y gosodwyd hi i orphwys hyd foreu adgyfodiad y dydd diweddaf. Boed i'w phlant i efelychu ei rhinweddau. C.

Chwefror 19eg, yn 50 mlwydd oed, Mr. Jenkin Davies, brawd Griffith Davies, Ysw., o'r Ynys-Lwyd, Aberdar, ar ol rhai misoedd o gystudd. Y cyfaill ymadawedig oedd y ieuengaf o ddau fab D. a Rachel Davies, Ynys Lwyd,—perchenogion y stâd werthfawr hono tra byddo dwfr yn afon Cynon. Pe cymerasid y drafferth o chwilio Swydd Forganwg, yr ydym yn sicr nad allesid cael un dyn fwy diniwed na mwy parod ei gymwynas, fel hefyd yr holl deulu. Yr oedd Mr. J. Davies yn aelod rheolaidd gyda thri enwad o Fudd-gymdeithasau; yr Odyddion, yr Iforiaid a'r Alffrediaid; ac wedi gweithio ei hun trwy agos bob swydd perthynol i'r cyfryw, yr Odyddion yn enwedig, yr hyn oedd yn hyfrydwch o'r mwyaf iddo, heb yn ddiau gymaint a meddwl am unrhyw gymhorth mewn clefyd; ond yn unig, fel eraill o'r teulu, i gefnogi yr egwyddor gymdeithasgar. A rhoddwyd prawf ar ddydd ei angladd o'r parch a enillodd yn hyn yn amser iechyd. Ar y 25ain ymgynullodd torf liosog, mwy feallai nag a welwyd o'r blaen ar y fath amgylchiad, o'r gwahanol gymdeithasau, y rhai a ymffurfiasant yn orymdaith drefnus o'r Ynys Lwyd i fonwent eglwys Aberdar. Ar lân y bedd darllenodd y Parch. Dr. Price (gweinidog y Bedyddwyr) yr anerchiad Odyddol ar y fath achlysur, gan roddi ei resymau dros wneud felly. Darfu masnachwyr Aberdar hefyd ddangos y parch ag oedd yn weddus trwy gau eu masnach-dau oll tra yr oedd yr angladd yn myned trwy y dref. Cyn cychwyn o'r angladd cafwyd pregeth gan y Parch. R. J. Jones, gweinidog presenol yr Hen-dŷ-cwrdd, oddiar Job xiv. 1, 2; gyda chymhwysder neillduol, a chymeradwyaeth y rhan fwyaf, os nid pawb o'r gwrandawyr. Y farn gyffredin yw, fod o gylch dwy fil o ddynion yn yr angladd. Dichon y cymerwn gyfleusdra yn fuan i ganu marwnad yr ymadawedig. Dylaswn goffa fod Mr. Jenkin Davies wedi rhoddi 20 punt yn ewyllysgar at ail-adeiladu yr Hen-dy-cwrdd.

Treynon. CARW COCH.

Barddoniaeth.

ANERCHIAD I'R IEUENCTYD, YNG NGHWRDD NADOLIG LLWYNRHYDOWEN, 1863.

HEDDYW, 'r dydd er coffadwriaeth
Am ein Harglwydd Iesu mwyn,
Er gwneyd cof o'i enedigaeth
Gwelir lluoedd yn y Llwyn.
Hardd yw gweled plant yn ffyddlon
Yn ymaflyd yn eu gwaith,
Oll mewn undeb pur o galon
Cyn darfyddo dydd eu taith.

Ymarferant eu galluoedd
Gawsant gan eu tirion Dad;
Cant feddiannu nef y nefoedd,
Gwobr gant mewn hyfryd wlad.
Na waherddwch hwynt i ddyfod
Attaf fi, medd Iesu Grist,
Teyrnas iddynt sydd yn barod
Lle ni welir neb yn drist.

Llwydd i ardal Llwynrhydowen
Gynnal pob peth yn y bla'n,
Gweddio, adrodd, dysgu darllen,
Uno i gadw ysgol gân;
Cadw'r plant mewn ymarferiad
Tra yn nyddiau bore 'u hoes,
Dysgu iddynt am y Ceidwad
Cu fu farw ar y groes.

Effaith gaffo y gwirionedd
Ar feddyliau dynol ryw;
Byw'n heddychol ac yn sanctaidd
B'ont yn ol ewyllys Duw;
Byw yn addfwyn, gostyngedig,
Cynorthwyo'r naill y llall:
Hyn sydd ini'n 'sgrifenedig,
Gwneyd a allom yn ddiball.

Dyma gysur goreu Cristion,
Cofio addewidion Duw;
Cofio caiff y pur o galon
Wedi angeu fythol fyw.
Nid oes bechod yn ei flino,
Nid oes gofid tan ei fron;
Nid yw ef yn ocheneidio
Wrth ffarwelio â'r fuchedd hon.

Boed i bawb yn gyffredinol
I ymdrechu ymdrech deg,
Gorphen gyrfa hardd ddymunol,
A meddiannu'r nefoedd chweg.
Nid oes genym un wybodaeth
Pryd daw angeu'n hol o'r byd;
Son y sydd trwy bob cym'dogaeth
I fod rhywrai'n myn'd o hyd.

Hen ac ieuanc, canol oedran
Sy'n trafaelu tua'r bedd,
Cawn yn gryno yn y graian
Dawel orphwys yr un wedd.

Y cardotyn gwael tylottaf
A'r boneddwr uchel barch,
Gyd-ddirwynant lawr yn araf
I gyd-orwedd yn yr arch.

Dodwyd i ni farw unwaith,
Wedi hyny i fod barn.
Duw a rydd gyfiawnder perffaith
'Nol gweithredoedd dyn bob darn.
Rhoer in' roesaw gan yr Iesu
Yn y byd tudraw i'r bedd,
Lle mae miloedd heddyw 'n canu
Clod i Dduw mewn gwlad o hedd.

Cwrtnewydd. THO. THOMAS.

CAN SAUL CYN EI YMLADDFA DDIWEDDAF.

(CYFEITHIAD O BYRON.)

Flaenoriaid ag aerwyr! fy ngwânu os caf
Gan bicell neu gleddyf wrth arwain llu'r Naf,
Corph brenin o'r gâd na attalied eich traed,
A'ch dur dyhysbyddwch y Gathiaid o'u gwaed.

Ti gludydd fy arfau! fy milwyr i gwrdd
A'r gelyn os ofnant, os troant hwy ffwrdd,
Estyna fi'n union yn gorph wrth dy draed,
Boed im' 'r *hyn na feiddiant hwy*, farw'n fy ngwaed.

Ymadawaf ag eraill—ond byth, byth â thi,
Etifedd fy nheyrn-fraint, fy anwyl fab i!
Y goron sydd ddysglaer, llywodraeth sydd fawr,
Neu angau breninol a'n herys yn awr.

Drenewydd, Ion. 1864. W. BEVAN.

MOLI DUW.

Fy Nuw! mae'r oll a welaf fi
I'r lân a lawr yn siarad;
A'u cân yn glod a mawl i Ti
Am ddoniau gorau'th gariad.

Mae'r wybren las o gôr i gôr,
Mae'r gelltydd tywyll niwlog,
Mae'r awel fwyn, yr ehang fôr
Yn moli'r Duw trugarog.

Siadau'r brychbryf, rif y sêr,
Y loyw a'r ddisglaer gornant,
Yr adar a'u caniadau pêr
Dy fawl o hyd a ganant.

'Rwyt Ti'n eu gwrandaw hwy bob un,
Hefyd gwrandewi finnau,
Nid wyf yn unig, nefol Gun!
Pan byddwy'n gwel'd dy wenau.

Cyf. A.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.